

## Agenda – Y Pwyllgor Deisebau

---

Lleoliad: I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch a:  
Ystafell Bwyllgora 3 – y Senedd Gareth Price – Clerc y Pwyllgor  
Dyddiad: Dydd Llun, 21 Mawrth 2022 0300 200 6565  
Amser: 14.00 [Deisebau@senedd.cymru](mailto:Deisebau@senedd.cymru)

---

### 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

(Tudalennau 1 – 21)

#### Panel 1

### 2 Sesiwn dystiolaeth – P-06-1161 Casglu a chyhoeddi data yn rheolaidd o ran faint o fabanod/plant sy'n dychwelyd at ofal eu rhieni sydd wedi bod mewn gofal ar ddiwedd Lleoliad Rhiant a Phlentyn

(Tudalennau 22 – 31)

Dr Louise Roberts, CASCADE

Jennifer Molloy, care experienced parent

#### Panel 2

### 3 Sesiwn dystiolaeth – P-06-1161 Casglu a chyhoeddi data yn rheolaidd o ran faint o fabanod/plant sy'n dychwelyd at ofal eu rhieni sydd wedi bod mewn gofal ar ddiwedd Lleoliad Rhiant a Phlentyn

Mark Carter – Barnardo's Cymru South East Wales

Liz Baker – Barnardo's Cymru Cardiff and Vale



Sharon Lovell – NYAS

Daljit Kaur Morris – NYAS

## **4 Deisebau newydd**

- 4.1 P-06-1235 Dylid sicrhau darpariaeth briodol o wasanaethau a chefnogaeth i bobl yng Nghymru sydd wedi cael niwed i'r ymennydd.  
(Tudalennau 32 – 44)
- 4.2 P-06-1248 Dylid newid y Rheolau Sefydlog a'r meini prawf ar gyfer derbyn deisebau.  
(Tudalennau 45 – 48)
- 4.3 P-06-1255 Sicrhau bod tadau/partneriaid geni yn cael eu cynnwys ym mhob asesiad a gofal drwy gydol y cyfnod amenedigol  
(Tudalennau 49 – 57)
- 4.4 P-06-1256 Cynnal refferendwm ar Gymru yn dod yn Genedl Noddfa  
(Tudalennau 58 – 65)
- 4.5 P-06-1257 Lleihau'r dreth gyngor ar gyfer eiddo ar ystadau preifat  
(Tudalennau 66 – 72)
- 4.6 P-06-1259 Gwahardd bagiau baw cŵn nad ydynt yn fiogdiraddiadwy  
(Tudalennau 73 – 77)
- 4.7 P-06-1260 Dylid dileu'r angen am basys Covid ar gyfer pob digwyddiad a gweithgaredd  
(Tudalennau 78 – 79)

## **5 Y wybodaeth ddiweddaraf am ddeisebau blaenorol**

- 5.1 P-06-1224 Dylunio cynllun peilot Incwm Sylfaenol Cyffredinol 'Ymadawyr Gofal a Mwy' sy'n cynnwys amrywiaeth o bobl  
(Tudalennau 80 – 84)

**Caiff y ddwy eitem a ganlyn eu grwpio i gael eu trafod gyda'i gilydd**

- 5.2 P-05-1001 Cynnal ymchwiliad annibynnol i'r dewis o safle ar gyfer y  
Ganolfan Ganser Felindre newydd arfaethedig  
(Tudalennau 85 – 110)
- 5.3 P-05-1018 Cefnogaeth ar gyfer y cynlluniau arfaethedig presennol i adeiladu  
Canolfan Ganser Felindre newydd yng Nghaerdydd mewn unrhyw ymchwiliad  
yn y dyfodol  
(Tudalennau 111 – 122)
- 5.4 P-05-937 Dylid stopio berwi cramenogion yn fyw (cimychiaid, crancod,  
cimychiaid afon, corgimychiaid ac ati)  
(Tudalennau 123 – 126)
- 5.5 P-06-1217 Agor canolfannau / clinigau meddygol un stop Covid Hir  
(Tudalennau 127 – 131)
- 6 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42(ix) i benderfynu gwahardd y  
cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer eitem 7.**
- 7 Trafod y dystiolaeth – P-06-1161 Casglu a chyhoeddi data yn  
rheolaidd o ran faint o fabanod/plant sy'n dychwelyd at ofal eu  
rhieni sydd wedi bod mewn gofal ar ddiwedd Lleoliad Rhiant a  
Phlentyn**

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

# Eitem 2

Yn rhinwedd paragraff(au) vi o Reol Sefydlog 17.42

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

## Dylid sicrhau darpariaeth briodol o wasanaethau a chefnogaeth i bobl yng Nghymru sydd wedi cael niwed i'r ymennydd

Y Pwyllgor Deisebau | 21 Mawrth 2022  
Petitions Committee | 21 March 2022

Cyfeirnod: SR21/1626-04

**Rhif y ddeiseb:** P-06-1235

**Teitl y ddeiseb:** Dylid sicrhau darpariaeth briodol o wasanaethau a chefnogaeth i bobl yng Nghymru sydd wedi cael niwed i'r ymennydd.

**Testun y ddeiseb:** Mae angen adolygiad brys o'r ddarpariaeth o wasanaethau a chefnogaeth i bobl yng Nghymru sydd wedi cael niwed i'r ymennydd.

Ar hyn o bryd nid oes dim gwasanaethau adsefydlu cleifion mewnol yng ngogledd Cymru ar gyfer pobl sydd wedi cael niwed i'r ymennydd, ac nid oes ond pedwar gwely cleifion mewnol ar gyfer plant a phobl ifanc yng Nghymru sydd wedi cael niwed i'r ymennydd.

Rhaid wrth wasanaethau sy'n ddigonol ac yn 'addas at y diben'.

Mae'n amser ar gyfer newid.

Yn 2018, lansiodd y Grŵp Hollbleidiol Seneddol ar Anafiadau i'r Ymennydd yr adroddiad a ganlyn

[https://cdn.ymaws.com/ukabif.org.uk/resource/resmgr/campaign/appg-abi\\_report\\_time-for-cha.pdf](https://cdn.ymaws.com/ukabif.org.uk/resource/resmgr/campaign/appg-abi_report_time-for-cha.pdf)

Fodd bynnag, roedd angen adroddiad cyfatebol a oedd yn canolbwyntio'n benodol ar Gymru ac yn ystyried ei demograffeg, ei daearyddiaeth a'i gwasanaethau.

Oherwydd yr angen hwn, yn 2021 cyhoeddwyd yr adroddiad "Acquired Brain



## Injury and Neurorehabilitation in Wales: Time for Change”

<https://ukabif.org.uk/page/TFCWales>

Gwneir argymhellion allweddol mewn pum maes - Niwroadsefydlu, Addysg, Cyfiawnder Troseddol, Anafiadau Trawmatig i'r Ymennydd sy'n Gysylltiedig â Chwaraeon, a'r System Budd-daliadau Lles - ac mae pob un yn tynnu sylw at yr angen dybryd i adolygu'r ddarpariaeth o wasanaethau a chefnogaeth i bobl yng Nghymru sydd wedi cael niwed i'r ymennydd.

Mae cael niwed i'r ymennydd yn epidemig cudd sy'n effeithio ar gannoedd o filoedd o bobl yng Nghymru, ac mae rhaid wrth wasanaethau sy'n ddigonol ac yn 'addas at y diben'.

Mae'n amser ar gyfer newid.

# 1. Cefndir

Mae anaf i'r ymennydd yn cynnwys unrhyw sefyllfa sy'n arwain at anaf i'r ymennydd ar ôl i rywun gael ei eni, a gall gynnwys anaf ar ôl syrthio, oherwydd damwain ffordd, tiwmor neu strôc. Yn ôl yr adroddiad 'Amser am Newid' aeth 84,374 o bobl i'r ysbyty yng Nghymru oherwydd anaf i'r ymennydd rhwng 2012 a 17; ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr y gwelwyd y nifer fwyaf, sef 20,187. Nid yw cyfanswm yr unigolion sy'n byw gydag effeithiau anaf i'r ymennydd yng Nghymru yn hysbys.

## 1.1. Adroddiad Amser am Newid

Yn 2018, lansiodd y Grŵp Seneddol Hollbleidiol ar Anafiadau i'r Ymennydd a Fforwm Anafiadau i'r Ymennydd y Deyrnas Unedig adroddiad, sef 'Acquired Brain Injury and Neurorehabilitation – Time for Change' i godi ymwybyddiaeth o anafiadau i'r ymennydd ac i geisio gwella'r cymorth sydd ar gael.

Yn 2021, cafodd yr adroddiad ei ddiweddarau i adlewyrchu'r sefyllfa yng Nghymru, a nodwyd y canlynol:

- Roedd yn amserol ystyried gwasanaethau niwroadsefydlu o gofio bod Rhwydwaith Trawma Mawr wedi'i sefydlu ar gyfer De Cymru a Phowys;
- Nid oes dim gwasanaethau adsefydlu cleifion mewnol i'w cael yng Ngogledd Cymru, ac

Dylid sicrhau darpariaeth briodol o wasanaethau a chefnogaeth i bobl yng Nghymru sydd wedi cael niwed i'r ymennydd

- Mae angen darparu'r cymorth briodol i'r rhai sydd wedi cael anaf i'r ymennydd er mwyn creu Cymru gynaliadwy ac iach.

Gwnaeth yr adroddiad nifer o argymhellion gan gynnwys yr angen i gynnal adolygiad o'r nifer sy'n cael anaf i'r ymennydd, ac i benderfynu a yw'r gwasanaethau niwroadsefydlu sydd ar gael ar hyn o bryd yng Nghymru yn ddigonol ac yn 'addas i'r diben'.

## 1.2. Y camau a gymerwyd gan Lywodraeth y DU

Ar 2 Rhagfyr 2021, cyhoeddodd Llywodraeth y DU ei hymrwymiad i ddatblygu **strategaeth draws-lywodraethol ar anafiadau i'r ymennydd**. Caiff y gwaith ei oruchwylio gan Fwrdd y Rhaglen a'r Gweinidog Gofal ac Iechyd Meddwl fydd yn cadeirio'r Bwrdd ar y cyd â Chris Bryant AS, a sefydlir grŵp llywio ochr yn ochr â'r Bwrdd.

Mewn gohebiaeth at y Pwyllgor ar 22 Chwefror 2022, cadarnhaodd y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol fod Llywodraeth Cymru yn cydweithio â'r Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol i sicrhau bod y strategaeth yn ystyried y ffaith bod gwasanaethau iechyd wedi'u datganoli i Gymru, a hefyd yn ystyried fframwaith clinigol cenedlaethol Cymru a'r datganiadau ansawdd sy'n cael eu datblygu. Cadarnhaodd y Gweinidog hefyd y byddai Llywodraeth Cymru yn cael ei chynrychioli ar Fwrdd y Rhaglen a'r Grŵp Llywio.

## 2. Gwasanaethau niwroadsefydlu yng Nghymru

Mae niwroadsefydlu yn broses o asesu, trin a rheoli, a hynny gan dîm amlddisgyblaeth arbenigol, gan gynnwys Ymgynghorwyr Adsefydlu, Nyrsys Adsefydlu, Niwroseicolegwyr, Therapyddion Lleferydd ac Iaith, Ffisiotherapyddion, a Therapyddion Galwedigaethol.

### 2.1. Gwasanaethau niwroadsefydlu yn Ne Cymru

**Sefydlwyd Rhwydweithiau Trawma Mawr yn Lloegr yn 2010** ac mae'r rhain yn cynnig llwybrau gofal cydgysylltiedig i gleifion trawma mawr. Yng **Nghymru, mae Tîm Amlddisgyblaeth yn cael ei sefydlu ar gyfer De a Gorllewin Cymru a De Powys**. Mae Ysbyty Athrofaol Cymru yn Ganolfan Trawma Mawr ac mae Ysbyty Treforys yn Abertawe yn Uned Drawma sy'n cynnig gwasanaethau arbenigol. Bydd pump o Unedau Trawma ychwanegol a chyfleusterau trawma mewn dau leoliad gwledig. Mae Ysbyty Athrofaol Llandochoau yn cynnig gwasanaethau niwroadsefydlu Lefel 1



sy'n rhoi cymorth arbenigol i'r rhai ag anghenion adsefydlu cymhleth. Mae hyn yn cynnwys uned adsefydlu sydd â 22 gwely niwroadsefydlu a 26 gwely ar gyfer anafiadau asgwrn cefn. Mae gan Ysbyty Castell-nedd Port Talbot 13 gwely ar gyfer achosion niwrolegol cymhleth.

Wrth gyfeirio at y tîm amlasiantaeth arbenigol a fydd yn cael ei sefydlu yn Ne Cymru, tynnodd y Gweinidog sylw at y buddsoddiad mewn gwasanaethau adsefydlu ychwanegol ar gyfer cleifion ag anafiadau trawma mawr gan gynnwys: sesiynau ychwanegol gydag ymgynghorydd adsefydlu; cyflwyno ymarferwyr adsefydlu trawma mawr; a rhoi'r presgripsiwn adsefydlu ar waith.

## 2.2. Gwasanaethau niwroadsefydlu yng Ngogledd Cymru

Mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr yn rhan o dîm amlddisgyblaeth arbenigol Gogledd-orllewin Canolbarth Lloegr a Gogledd Cymru ac maent yn gallu manteisio ar arbenigedd y tîm amlddisgyblaeth yn Ysbyty Athrofaol Brenhinol Stoke. Mae trigolion gogledd Powys yn cael gwasanaethau gan dîm amlddisgyblaeth Gorllewin Canolbarth Lloegr, a thîm amlddisgyblaeth Birmingham, yr Ardal Ddu, Henffordd a Chaerwrangon. Esboniodd y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol fod yr holl wasanaethau'n cael eu prynu'n ôl y galw drwy Geisiadau Cyllido Cleifion Unigol.

Mae gan Wasanaeth Anafiadau i'r Ymennydd Gogledd Cymru dîm clinigol amlddisgyblaeth yn y gymuned sy'n rhoi cymorth adsefydlu i gleifion allanol.

Mae plant sy'n bodloni'r meini prawf ar gyfer gwasanaethau niwroadsefydlu pediatrig arbenigol i gleifion mewnol yn cael eu hatgyfeirio at Ysbyty Plant Alder Hey, Lerpwl (Gogledd Cymru) neu Ysbyty Plant Arch Noa Cymru yng Nghaerdydd. Yn Ysbyty Plant Arch Noa, mae uned niwroadsefydlu pediatrig arbenigol sydd â lle i bedwar plentyn neu berson ifanc sydd wedi cael anaf i'r ymennydd.

Dywedodd y Gweinidog fod Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr wedi bod yn ceisio mynd i'r afael â'r prinder gwasanaethau Niwrsadsefydlu yng Ngogledd Cymru ers 2019/20. Cyfeiriodd y Gweinidog at dîm prosiect Niwro'r Bwrdd sydd, mewn cydweithrediad â chlinigwyr a defnyddwyr gwasanaeth, wedi bod yn:

working to understand and define what the delivery of a level 2 neuro rehabilitation service would involve. This included identifying potential capacity and demand, relevant service standards, resource requirements and how the current service pathway operates.

Dylid sicrhau darpariaeth briodol o wasanaethau a chefnogaeth i bobl yng Nghymru sydd wedi cael niwed i'r ymennydd

---

Cyflwynwyd adroddiad ar y canfyddiadau i'r Tîm Gweithredol ym mis Ebrill 2021 ac, yn dilyn oedi oherwydd pwysau o fewn y bwrdd iechyd, cadarnhaodd y Gweinidog fod y Tîm wedi cael cymeradwyaeth ym mis Medi 2021 i ddatblygu opsiynau posibl ymhellach a chynnal arfarniad cyn argymhell opsiwn. Mae'r gwaith yn mynd rhagddo a chaiff ei gwblhau erbyn yr hydref.

Awgrymodd y Gweinidog y gallai deisebwyr gymryd rhan yn y gwaith o ddatblygu'r gwasanaeth newydd hwn ac y gallent roi eu manylion cyswllt.

### 3. Y camau a gymerwyd gan Lywodraeth Cymru

Mewn gohebiaeth at y Pwyllgor ar 22 Chwefror 2022, tynnodd y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol sylw at [Gynllun Cyflawni ar gyfer Cyflyrau Niwrolegol](#) 2017 sy'n cyflwyno gweledigaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer pawb yng Nghymru sy'n byw gyda chyflwr niwrolegol. Caiff y Cynllun ei oruchwylio gan y Grŵp Gweithredu ar Gyflyrau Niwrolegol sydd, ers y ddwy flynedd ddiwethaf wedi blaenoriaethu niwroadsefydlu ar gyfer pobl ag anaf i'r ymennydd a chyflyrau niwrolegol eraill. Dyrennir £900,000 bob blwyddyn ar gyfer gwasanaethau niwroadsefydlu. Mae'r Cynllun wedi'i ymestyn tan [fis Mawrth 2022](#).

Eglurodd y Gweinidog fod y Grŵp Gweithredu ar Gyflyrau Niwrolegol yn gweithio gyda'r [tîm Gwerth mewn Iechyd](#) i ddatblygu dangosfwrdd data ar gyfer anafiadau i'r ymennydd a fydd yn galluogi'r Grŵp, byrddau iechyd a rhanddeiliaid eraill i ddeall y galw am wasanaethau a'r effaith ar bobl sy'n byw gydag anaf i'r ymennydd.

Cyhoeddwyd y [Fframwaith Clinigol Cenedlaethol](#) ym mis Mawrth 2021 ac mae'n egluro sut y dylid darparu gwasanaethau clinigol, gan gynnwys cyflyrau niwrolegol, dros y degawd nesaf a'r modd y gall Llywodraeth Cymru wneud rhagor i helpu i gynllunio systemau a gwella ansawdd. Dywedodd y Gweinidog:

NCF will be supported by a range of quality statements that consist of high-level policy intentions that set out the standards and outcomes expected of clinical services. The NCIG is currently working on a specific quality statement for neurological conditions.

Cyhoeddwyd [Fframwaith adsefydlu cenedlaethol](https://llyw.cymru/fframwaith-adsefydlu-gwasanaethau-iechyd-chymdeithasol-2020-i-2021.html) <<https://llyw.cymru/fframwaith-adsefydlu-gwasanaethau-iechyd-chymdeithasol-2020-i-2021.html>> a chanllawiau ar gyfer poblogaethau penodol ym mis Mai 2020. Dywedodd y Gweinidog y byddai'r rhain yn helpu gwasanaethau i ddeall yn well y galw cynyddol am wasanaethau adsefydlu, ail-alluogi ac adfer ar draws gwasanaethau iechyd a gofal

Dylid sicrhau darpariaeth briodol o wasanaethau a chefnogaeth i bobl yng Nghymru sydd wedi cael niwed i'r ymennydd

cymdeithasol, a'u bod yn cael eu defnyddio gan fyrddau iechyd, awdurdodau lleol a phartneriaid yn y trydydd sector i gynllunio gwasanaethau adsefydlu sy'n ymateb i anghenion eu poblogaethau.

Wrth ymateb i'r deisebydd, dywedodd y Gweinidog:

I expect to see transformation to deliver increased and more consistent provision of rehabilitation, reablement and recovery services, including neuro-rehabilitation to ensure people can maximise their recovery from ill health as close to home as possible and live healthier, happier, longer, independent lives.

## 4. Y camau a gymerwyd gan Senedd Cymru

Mewn ymateb i bryderon nad oedd y Cynllun Cyflawni ar gyfer Cyflyrau Niwrolegol wedi arwain at y newidiadau a ddisgwyliid, penderfynodd Grŵp Trawsbleidiol y Bumed Senedd ar Gyflyrau Niwrolegol gynnal ymchwiliad yn 2019 a oedd yn argymhell cymryd camau i wella'r modd roedd y Cynllun yn cael ei roi ar waith ac i gyflwyno dull hirdymor o godi safon y cymorth a gynigir i bobl â chyflyrau niwrolegol. Fodd bynnag, ni dderbyniodd Llywodraeth Cymru yr holl argymhellion yn yr adroddiad.

Gwneir pob ymdrech i sicrhau bod y wybodaeth yn y papur briffio hwn yn gywir adeg ei gyhoeddi. Dylai darllenwyr fod yn ymwybodol nad yw'r papurau briffio hyn yn cael eu diweddarau o reidrwydd na'u diwygio fel arall i adlewyrchu newidiadau dilynol.



Eich cyf/Your ref P-06-1235  
Ein cyf/Our ref EM/14337/21

Jack Sargeant AS  
Cadeirydd – Y Pwyllgor Deisebau

22 Chwefror 2022

Annwyl Jack,

Diolch ichi am eich llythyr dyddiedig 25 Tachwedd ar ran y pwyllgor deisebau ynglŷn â darpariaeth gwasanaethau a chefnogaeth i bobl sydd wedi cael niwed i'r ymennydd yng Nghymru. Ymddiheuraf am yr oedi cyn ymateb.

Rydym yn ymwybodol o gynlluniau Llywodraeth y DU i gyhoeddi strategaeth drawslywodraethol ar gyflyrau niwrolegol. Rydym mewn cysylltiad â'r Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol yn Llywodraeth y DU er mwyn sicrhau bod y fath strategaeth yn cydnabod bod gwasanaethau iechyd wedi'u datganoli yng Nghymru, yn ogystal â sicrhau bod ystyriaeth yn cael ei roi i'n fframwaith clinigol cenedlaethol a'n datganiadau ansawdd sy'n cael eu datblygu. Mae Bwrdd Rhaglen ar gyfer goruchwylio datblygiad y strategaeth hon yn cael ei sefydlu. Cynhelir cyfarfod cyntaf y Bwrdd ar 2 Chwefror a chaiff ei gydgadeirio gan y Gweinidog Gofal ac Iechyd Meddwl a Chris Bryant, Aelod o Senedd y DU. Yn ogystal, mae Grŵp Llywio yn cael ei sefydlu, ochr yn ochr â'r Bwrdd Rhaglen. Bydd Llywodraeth Cymru yn cael ei chynrychioli yn y ddau. Mae'r cynllun cyflawni Cyflyrau Niwrolegol sy'n cael ei oruchwylio gan y Grŵp Gweithredu ar Gyflyrau Niwrolegol yn amlinellu gweledigaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer pobl sy'n byw â'r holl gyflyrau niwrolegol Mae'r Grŵp Gweithredu ar Gyflyrau Niwrolegol yn parhau i ddyrannu £900k i wasanaethau niwro-adsefydlu yn flynyddol, ac maent wedi sicrhau bod niwro-adsefydlu ar gyfer pobl sydd wedi cael niwed i'r ymennydd a phobl sydd â chyflyrau niwrolegol eraill wedi bod yn flaenoriaeth dros y ddwy flynedd diwethaf.

Mae'r Grŵp Gweithredu ar Gyflyrau Niwrolegol hefyd yn cydweithio â'r tîm Gwerth mewn Iechyd ar gynllun uchelgeisiol i ddatblygu dangosfwrdd data ar gyfer pobl sydd wedi cael niwed i'r ymennydd. Bydd hyn yn galluogi'r Grŵp, y byrddau iechyd, a rhanddeiliaid eraill i gael dealltwriaeth glir o'r galw am wasanaethau ar gyfer pobl sy'n byw gyda niwed i'r ymennydd yng Nghymru, ynghyd ag effaith y gwasanaethau arnynt.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay  
Caerdydd • Cardiff  
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:  
0300 0604400

[Gohebiaeth.Eluned.Morgan@llyw.cymru](mailto:Gohebiaeth.Eluned.Morgan@llyw.cymru)  
[Correspondence.Eluned.Morgan@gov.wales](mailto:Correspondence.Eluned.Morgan@gov.wales)

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

Tudalen y pecyn 38  
We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Mae ein Fframwaith Clinigol Cenedlaethol a gyhoeddwyd ym mis Mawrth 2021 yn disgrifio'r modd y dylid darparu gwasanaethau clinigol ar gyfer cyflyrau niwrolegol dros y degawd nesaf, a sut y gallwn gynnal y system gynllunio a gwella ansawdd yn well. Bydd y Fframwaith Clinigol Cenedlaethol yn cael ei gefnogi gan ystod o ddatganiadau ansawdd sy'n cynnwys amcanion polisi ar lefel uchel sy'n amlinellu'r safonau a'r canlyniadau a ddisgwylir gan wasanaethau clinigol. Mae'r Grŵp Gweithredu ar Gyflyrau Niwrolegol yn llunio datganiad ansawdd yn benodol ar gyfer cyflyrau niwrolegol ar hyn o bryd.

Yn ogystal, ym mis Mai 2020, cyhoeddwyd [fframwaith adsefydlu cenedlaethol](#) a chanllawiau sy'n seiliedig ar boblogaeth benodol er mwyn cynorthwyo gwasanaethau i gael gwell dealltwriaeth o'r galw cynyddol am wasanaethau adsefydlu, ailalluogi ac adfer mewn gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol. Mae'r Byrddau Iechyd, awdurdodau lleol a phartneriaid y trydydd sector yn defnyddio'r Fframwaith i gynllunio gwasanaethau adsefydlu er mwyn ymateb i anghenion eu poblogaethau.

Yn ychwanegol, ac yn rhan o weithrediad Rhwydwaith Trawma Mawr De Cymru, mae'r byrddau iechyd wedi buddsoddi mewn darpariaeth adsefydlu ychwanegol ar gyfer cleifion sydd ag anafiadau trawma mawr gan gynnwys anafiadau i'r ymennydd. Mae hyn yn cynnwys darparu sesiynau adsefydlu ychwanegol gydag ymgynghorwyr, penodi ymarferwyr adsefydlu yn dilyn trawma mawr, a gweithredu'r presgripsiwn adsefydlu.

Mewn perthynas â'r Gogledd, nid oes darpariaeth o wasanaethau niwro-adsefydlu mewn ysbyty i blant ac oedolion yn y Gogledd ar hyn o bryd. Caiff pob gwasanaeth eu prynu yn ôl y galw drwy'r broses Ceisiadau Cyllido Cleifion Unigol.

Ers 2019/20, mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr wedi bod yn ceisio mynd i'r afael yn weithredol â'r sefyllfa o ddiffyg gwasanaethau Niwro-adsefydlu mewn ysbyty Lefel 2 yn y Gogledd. Yn ystod y cyfnod hwn, mae tîm prosiect, mewn cydweithrediad â chlinigwyr a defnyddwyr gwasanaeth wedi bod yn gweithio i geisio deall a diffinio beth fyddai ynghlwm â sefydlu gwasanaeth Niwro-adsefydlu Lefel 2. Roedd y gwaith hwn yn cynnwys canfod y gallu a'r galw, safonau gwasanaeth perthnasol, anghenion adnoddau, yn ogystal â chanfod sut mae'r llwybr gwasanaeth presennol yn gweithredu.

Ym mis Ebrill 2021, cyflwynwyd adroddiad i'r Tîm Gweithredol a oedd yn cynnwys yr wybodaeth uchod a chynigion ynghylch nifer o ffyrdd posibl i gyflawni gwasanaeth Niwro-adsefydlu Lefel 2 yn lleol. O ganlyniad i bwysau yn y bwrdd iechyd ar y pryd, gohiriwyd y broses o roi ystyriaeth i'r adroddiad. Fodd bynnag, ym mis Medi 2021, rhoddwyd cymeradwyaeth gan y Tîm Gweithredol i Brosiect Niwro-adsefydlu Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr ddatblygu'r opsiynau posibl ymhellach, a chwblhau proses o arfarnu opsiynau er mwyn canfod opsiwn a argymhellir. Mae'r gwaith hwn yn mynd rhagddo ar hyn o bryd. Bydd y gwaith wedi'i gwblhau erbyn yr hydref ac yn cael ei rannu â'r Tîm Gweithredol ar gyfer cymeradwyaeth bosibl. Maent yn fodlon rhoi diweddariad i'r Pwyllgor Deisebau bryd hynny.

Mae'r tîm yn awyddus i sicrhau bod unrhyw wasanaeth newydd yn cael ei sefydlu ar y cyd â defnyddwyr gwasanaeth a gofalwyr, yn ogystal â gweithwyr iechyd proffesiynol. Pe bai unrhyw un o'r deisebwyr yn hoffi bod yn rhan o hyn, a wnewch chi gysylltu â [Megan.Vickery@wales.nhs.uk](mailto:Megan.Vickery@wales.nhs.uk) am ragor o wybodaeth.

Disgwyliaf weld trawsnewidiadau er mwyn sicrhau cynnydd a chysondeb yn narpariaeth gwasanaethau adsefydlu, ailalluogi ac adfer, gan gynnwys gwasanaethau niwro-adsefydlu. Mae hyn er mwyn sicrhau bod pobl yn gallu sicrhau'r gwellhad gorau yn dilyn cyfnod o salwch mor agos at y cartref â phosibl, gan eu galluogi i fyw bywydau annibynnol iachach, hapusach a hirach.

Gobeithiaf fod yr wybodaeth hon o gymorth wrth ichi ymateb i'ch etholwr.

Yn gywir,



**Eluned Morgan AS/MS**

Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol  
Minister for Health and Social Services

**P-06-1235 Ensure appropriate provision of services and support for people with Acquired Brain Injury in Wales, Correspondence – Petitioner to Committee, 14.03.22**



Swansea University  
Prifysgol Abertawe

Faculty of Medicine, Health and Life Science  
Y Gyfadrn Meddygaeth, Iechyd a Gwyddor  
Bywyd

Dear Petitions Committee,

Thank you for the actions you have already taken concerning our petition, and for also sharing the letter of 22 February 2022 from Eluned Morgan - Minister for Health and Social Services, regarding the provision of services and support for people with Acquired Brain Injury (ABI) in Wales.

ABI is a hidden epidemic affecting many hundreds of thousands of people in Wales. It is a chronic condition with hidden disabilities and life-long consequences, where many individuals require early and continued access to neurorehabilitation to optimise their recovery and maximise their long-term potential. However, the provision of services and support for people with ABI extends beyond the Health and Social Services sector, and rests on the cooperation between multiple sectors and departments.

Indeed, in our recently published 2021 *'Acquired Brain Injury and Neurorehabilitation in Wales: Time for Change'* report (appended with this letter - <https://ukabif.org.uk/page/TFCWales>), we make a number of recommendations across five key areas – Neurorehabilitation, Education, Criminal Justice, Sport-related Traumatic Brain Injury, and the Welfare Benefits System - with each highlighting the urgent need for the provision of services and support for people with ABI in Wales to be reviewed.

However, the letter - which we have gratefully received from Eluned Morgan –addresses only one of these five key areas. Consequently, we hope that the petitions committee are able to give their full consideration to our recommendations across all five key areas during their discussions:

**1. Neurorehabilitation**

- There is an urgent need in Wales to review the incidence of ABI and ensure existing neurorehabilitation services are adequate and 'fit for purpose' for children, young people, and adults, with new services implemented as required
- Children, young people, and adults with ABI in Wales should have access to high quality inpatient and community-based neurorehabilitation. Their neurorehabilitation needs should be assessed shortly after admittance to hospital, delivered during the inpatient phase, and continued, if required, in the local community.
- There is a need for cooperation between Health, Social Care, and Education departments, and funding for inpatient and community neurorehabilitation services needs to be reviewed.
- Neurorehabilitation must be a key consideration in the new Major Trauma Network for South and West Wales and South Powys, with a clear pathway to appropriate services.
- It should be mandatory for the Rehabilitation Prescription to be given to all individuals with an ABI, not just those who have been in a Major Trauma Centre, on discharge from hospital. Copies should also be sent to their General Practitioner and given to the patient and family.

**2. Education**

- There is a need to review the incidence of children and young people with ABI in the education system in Wales.

- All education professionals should have a minimum level of awareness and understanding about ABI and the educational requirements of children and young people with this condition (i.e., completion of a short online course for all school-based staff), with additional training for the named lead professional supporting the individual with an ABI and Additional Learning Needs Coordinators.
- Many children and young people with ABI require individually tailored, collaborative and integrated support for the return to school, and throughout their education.
- An agreed 'return-to-school' pathway plan is required, led, and monitored by a named lead professional, to provide a consistent approach and support for the individual, their family, and teachers.
- There is a need to ensure that Statements of Special Educational Needs (and Individual Development Plans in future) have consistent input from neuropsychological services to ensure that provision is fit for the individual's needs. The advice in the Statement should be specific - with no room for interpretation - to ensure that each individual receives appropriate support consistently.

### **3. Criminal Justice**

- Criminal justice procedures, practices and processes need to be reformed to take into account the needs of individuals with ABI.
- Training and information about ABI is required across all services including the police, probation, prison services and the Courts.
- Brain injury screening for children, young people and adults is required routinely, and at the earliest point of contact with the Criminal Justice System.
- If an ABI is identified, neurorehabilitation is required with the appropriate interventions planned and implemented depending on injury severity. This could include ABI Awareness training for current Criminal Justice System staff to adapt their practices. In the cases of more severe brain injury, they may require specialist intervention with trained professionals.

### **4. Sport-Related Traumatic Brain Injury**

- Funding for collaborative research is required to evaluate and improve assessment tools, develop objective diagnostic markers, and better understand the recovery process including post-concussion syndrome and potential long-term risks of sport-related brain injury.
- An education campaign is required in schools and communities to improve awareness and understanding of sport-related brain injury.
- Government should take the lead with clear sport-independent concussion guidance and policies. Sport associations should work collaboratively with government and professional clinical bodies to implement these policies and to improve health professionals' knowledge of concussion management.
- The National Health Service should develop better pipelines for the diagnosis and care of sport-related brain injury, including post-injury follow-up for earlier detection of post-concussion syndrome.

### **5. Welfare Benefits System**

- Training is required for all assessors involved with individuals who have ABI.
- Re-assessment for welfare benefits should only take place every five years.
- A brain injury expert should be on the consultation panel when changes to the welfare system are proposed.

In addition, we also have the following comments and/or queries in response to the letter of 22 February 2022 from Eluned Morgan - Minister for Health and Social Services:



1. Thank you for confirming that the United Kingdom Government plans to publish a cross government strategy on neurological conditions and are liaising with the Department of Health and Social Care to ensure that any such strategy takes into account that health services are devolved in Wales, as well as consideration of the Welsh Government National Clinical Framework and developing quality statements. As you know, Chris Bryant MP, has been working closely with the United Kingdom Acquired Brain Injury Forum (UKABIF) regarding this, and has confirmed that there is representation from the Welsh Government at all levels in this work. It will be good to see how this translates, and we hope that at a *minimum*, the recommendations arising from the cross-government strategy on neurological conditions will be applied equally in each of the nations of the United Kingdom.
2. Concerning the Neurological Conditions Delivery Plan which sets out the Welsh Government's vision for people living with all neurological conditions in Wales, £900k has been allocated for neurological rehabilitation services annually. We note that Stroke and dementia are not covered in this plan as individuals with these conditions have their own delivery plans, but that still leaves coverage of approximately 250 recognised neurological conditions under the plan. How much of this £900k budget is allocated to ABI specifically? Additionally, as it is anticipated that the number of people with neurological conditions will increase in the future due to increased longevity, improved survival rates and improved general health care, how do you envisage that future levels of demand will be met and that the Delivery Plan continues to evolve to further improve provision? As recognised in the Neurological Conditions Delivery Plan, there is need to not only raise awareness of these conditions, but to also deliver a quicker pace of change going forward.
3. Improvements in the quality of neurorehabilitation are a long-standing aspiration across the United Kingdom, although its implementation has been somewhat neglected over the last two decades. As a requisite example, in 2001 the Parliamentary Health Select Committee published a report on 'Head Injury' rehabilitation containing over 20 recommendations. Though these recommendations were for the UK in general, they were also highly relevant to Wales as a devolved nation. However, whilst many of the recommendations related to acute care have been implemented to some extent, we have not seen substantial implementation of those recommendations in the last two decades (please refer to Page 16 in the appended '*Acquired Brain Injury and Neurorehabilitation in Wales: Time for Change*' report for further details). Therefore, and regarding the National Clinical Framework, what is the timescale for the quality statement for neurological conditions, and how do you envisage that these high-level policy intentions will be implemented at service level?
4. Further, the publication of the National Rehabilitation Framework and underpinning population specific guidance (published May 2020) is certainly welcome news, with this intended to help services to better understand the increasing demand for rehabilitation, reablement and recovery throughout health and social care services. However, does the implementation of this guidance, at least in part, also rest on the successful delivery of the data dashboard for ABI which as recognised, is an ambitious project? The development of the data dashboard is long overdue, but how will those with ABI who are not admitted to hospital and/or not attending for emergency and unscheduled care be identified and in turn, supported in the care pathway?
5. Thank you for sharing that health boards have invested additional rehabilitation provision for patients with major trauma injuries, including the implementation of the Rehabilitation Prescription. However, Rehabilitation Prescriptions are not made available to all individuals with an ABI, and General Practitioners do not always receive a copy when one is available, so cannot facilitate access to neurorehabilitation services post-discharge. Individuals with an ABI treated outside of a Major Trauma Centre in Wales are also still unlikely to receive a rehabilitation

prescription. Instead, we believe that a Rehabilitation Prescription should be given to all individuals with an ABI, not just those who have been in a Major Trauma Centre, on discharge from hospital. Given the inconsistent and limited use of Rehabilitation Prescriptions, is the implementation of and use of these under review, and are there plans to expand provision further? Additionally, whilst we welcome the recent investment in rehabilitation provision by health boards, do enough specialists currently exist to meet demand and are there plans for further investment?

6. We are very pleased to learn that Betsi Cadwaladr University Health Board (BCUHB) has been actively trying to address the issue of the lack of inpatient Level 2 Neuro Rehabilitation services in North Wales since 2019/20, including the establishment of the BCUHB Neuro Rehab Project Board in response to the report submitted to the Executive Team in April 2021. Thank you also for your suggestion of contacting [Megan.Vickery@waes.nhs.uk](mailto:Megan.Vickery@waes.nhs.uk). We will of course do this and look forward to further updates on progress, as well as the opportunity to be involved with this work.
7. In addition to a specific lack of neurorehabilitation services in North Wales, we also wish to highlight that such services are particularly limited for children in Wales. From April 2010, neurorehabilitation for children with ABI was transferred to the seven Health Boards, and planning undertaken through a joint committee, the Welsh Health Specialised Services Committee (WHSSC). As we understand, individuals who meet the criteria for specialist inpatient paediatric neurorehabilitation under the Welsh Health Specialised Services Committee policy are referred to Alder Hey Children's Hospital, Liverpool (North Wales) or Noah's Ark Children's Hospital for Wales in Cardiff (South Wales). The latter also provides secondary and tertiary services for children and young people, in areas relevant to trauma care. However, there are no other specialist NHS paediatric neurorehabilitation services in Wales, either inpatient or long-term in the community. How and when will this be addressed?


Thank you once again for considering our petition and for allowing us the opportunity to respond to the letter. Please do not hesitate to contact us should you have any queries or require further information. We would welcome the opportunity to work collaboratively and alongside you to ensure improved provision of services and support for people with ABI in Wales.

Yours Sincerely,  
On behalf of my fellow petitioners

Dr Claire Williams



Associate Professor and School Education Lead  
School of Psychology, Faculty of Medicine, Health and Life Science



Prifysgol Abertawe • Swansea University  
Parc Singleton, Abertawe, SA2 8PP, DU • Singleton Park, Swansea, SA2 8PP, UK  
Ffon/Tel: +44 (0) 1792 205678

Mae Prifysgol Abertawe yn elusen gofrestredig. Rif. 1138342 • Swansea University is a registered charity. No. 1138342  
Mae'r Brifysgol yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg ac yn Saesneg • The University welcomes correspondence in Welsh and English

# Awdurdodau Lleol a meini prawf derbyniadwyedd ar gyfer deisebau

Y Pwyllgor Deisebau | 21 Mawrth 2022  
Petitions Committee | 21 March 2022

Cyfeirnod: SR22/2201

Rhif y ddeiseb: P-06-1248

**Teitl y ddeiseb:** Dylid newid y Rheolau Sefydlog a'r meini prawf ar gyfer derbyn deisebau.

**Geiriad y ddeiseb:** Ar hyn o bryd, mae deisebau sy'n ymwneud â phenderfyniadau gweithredol awdurdodau lleol yn cael eu gwrthod yn awtomatig gan y Pwyllgor Deisebau yn unol â'r Rheolau Sefydlog. Ar draws Cymru, mae awdurdodau lleol yn diystyru datganiadau Cynulliad Cymru, megis am yr argyfwng hinsawdd a'r argyfwng natur ac yn gwneud penderfyniadau sy'n mynd yn uniongyrchol groes i ddatganiadau o'r fath. Mae llawer o ffermydd yn cael eu colli tra bo cynghorau'n ceisio gwneud y gorau o'u refeniw drwy ganiatáu gwaith adeiladu ychwanegol ar dir llain las.

Ym mis Chwefror 2016, cynhaliodd y Pwyllgor Deisebau ymarfer ymgynghori â'r cyhoedd ac adolygiad o drefniadau deisebau cyhoeddus. O dan eitem 17, cadarnhawyd bod 57 y cant o'r cyhoedd o blaid caniatáu deisebau am benderfyniadau gweithredol awdurdodau lleol ac roedd yr ymatebion gan ddeisebwyr yn gymysg. O dan eitem 21, nodwyd y canlynol: "Er gwaethaf yr ymatebion i'r arolwg ar-lein, ymddengys nad oedd cytundeb dros newid yn y maes hwn a rhesymau da dros beidio ag ymyrryd yn y broses leol o wneud penderfyniadau." Mae hyn yn gwrthod hawl i'r cyhoedd ddefnyddio'r llwybr cywir i herio penderfyniadau awdurdodau lleol yn gywir sy'n mynd yn groes i'r nodau a'r ymrwymadau y mae Llywodraeth Cymru wedi'u gwneud. Noda Polisi Cynllunio Cymru y canlynol: "Mae gan Weinidogion Cymru bwerau wrth gefn i wneud eu Gorchmynion Dirymu/Addasu neu Ddirwyn i Ben eu hunain, ond dim ond ar ôl ymgynghori â'r awdurdod cynllunio." Sut y gall y cyhoedd ofyn am hyn pan wrthodir deisebau'n awtomatig?



## 1. Cefndir

Caiff y darpariaethau sy'n rheoli gweithdrefn ddeisebau cyhoeddus y Senedd eu nodi yn Rheol Sefydlog 23. O dan Reol Sefydlog 23.4, nid yw deiseb yn dderbyniadwy 'os yw'n gofyn i'r Senedd wneud unrhyw beth y mae'n eglur nad oes gan y Senedd bŵer i'w wneud.' Mae gwefan deisebau'r Senedd yn datgan bod hyn yn cynnwys 'rhywbeth y mae... cyngor lleol yn gyfrifol amdano (gan gynnwys penderfyniadau cynllunio)'.

Cynhaliodd y Pwyllgor Deisebau adolygiad o drefniadau deisebau cyhoeddus yn 2016. Roedd hyn yn cynnwys ymgynghori ar reolau derbyniadwyedd. Amlinellodd y Pwyllgor y meini prawf presennol fel a ganlyn:

Ar hyn o bryd, ni dderbynnir deisebau am benderfyniadau gweithredol awdurdodau lleol unigol. (Mae hyn hefyd yn ymestyn i benderfyniadau awdurdodau lleol ar faterion a allai ddod gerbron Llywodraeth Cymru, fel cau ysgolion a cheisiadau cynllunio.) I'r gwrthwyneb, mae deisebau ynghylch penderfyniadau gweithredol byrddau iechyd lleol yn dderbyniadwy.

Fel rhan o'i adolygiad, cynhaliodd y Pwyllgor ymgynghoriad cyhoeddus ar feini prawf derbyniadwyedd, drwy arolwg ar-lein. Roedd 57% o'r 330 o ymatebwyr o blaid caniatáu deisebau am benderfyniadau gweithredol awdurdodau lleol.

At hynny, ymgynghorodd y Pwyllgor â rhanddeiliaid, gan gynnwys deisebwyr presennol a blaenorol, a chyrrff cyhoeddus o bob rhan o Gymru. Roedd deisebwyr wedi'u rhannu'n gyfartal o blaid ac yn erbyn, tra bod rhanddeiliaid yn gyffredinol o blaid cynnal y trefniadau presennol.

Daeth y Pwyllgor i'r casgliad yr 'ymddengys nad oedd cytundeb dros newid yn y maes hwn a rhesymau da dros beidio ag ymyrryd yn y broses leol o wneud penderfyniadau,' ac awgrymodd na ddylai fod newid i reolau derbyniadwyedd.

Ni wnaeth adroddiad gwaddol y Pwyllgor Deisebau o'r Bumed Senedd roi sylw i unrhyw argymhelliad y dylai materion awdurdodau lleol gael eu dwyn o dan gylch gorchwyl system ddeisebau'r Senedd.

## 2. Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021

Mae Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 yn gosod dyletswydd ar brif gynghorau i baratoi a chyhoeddi eu cynllun deisebau eu hunain. Mae'r Ddeddf yn nodi bod yn 'rhaid i brif gyngor wneud a chyhoeddi cynllun ("cynllun deisebau") sy'n nodi sut y mae'r cyngor yn bwriadu ymdrin â deisebau (gan gynnwys deisebau electronig) ac ymateb iddynt.' Rhaid i gynllun nodi:

- sut i gyflwyno deiseb i'r cyngor;
- sut ac erbyn pryd y bydd y cyngor yn cydnabod ei fod wedi cael deiseb;
- y camau y gall y cyngor eu cymryd mewn ymateb i ddeiseb y mae'n ei chael;
- yr amgylchiadau (os oes rhai) pan allai'r cyngor beidio â chymryd unrhyw gamau pellach mewn ymateb i ddeiseb; a
- sut ac erbyn pryd y bydd y cyngor yn sicrhau bod ei ymateb i ddeiseb ar gael i'r person a gyflwynodd y ddeiseb ac i'r cyhoedd.

Cyn Deddf 2021, gallai awdurdodau lleol gynnal Pleidleisiau Cymunedol o dan Ddeddf Llywodraeth Leol 1972. Nid yw Pleidleisiau Cymunedol yn rhwymo prif gynghorau a dim ond os bydd nifer digonol o etholwyr yn eu cefnogi mewn cyfarfod cymunedol y gellir eu deddfu.

Yn ei nodyn esboniadol i Ddeddf 2021, nododd Llywodraeth Cymru ddau opsiwn: cynnal sefyllfa bresennol Deddf 1972, neu gyflwyno dyletswydd statudol ar brif gynghorau i gyflwyno cynllun deisebau.

Wrth argymhell opsiwn dau (dyletswydd statudol newydd), dadleuodd Llywodraeth Cymru y byddai'r darpariaethau yn 'yn darparu fframwaith i alluogi cynghorau i ymgysylltu'n agored â'r cyhoedd' ac y 'byddai diddymu pleidleisiau cymunedol yn golygu bod y cyhoedd yn gallu cael mynediad at ddeisebau yn gynt ac yn haws.

Hyd yn hyn, nid yw'r darpariaethau hyn wedi'u rhoi ar waith. Mae Llywodraeth Cymru wedi lansio ymgynghoriad i awdurdodau lleol ofyn cwestiynau am y cynllun newydd. Disgwylir i ganllawiau statudol newydd gael eu cyhoeddi cyn yr etholiadau llywodraeth leol ym mis Mai 2022.

Gwneir pob ymdrech i sicrhau bod y wybodaeth yn y papur briffio hwn yn gywir adeg ei gyhoeddi. Dylai darllenwyr fod yn ymwybodol nad yw'r papurau briffio hyn yn cael eu diweddarau o reidrwydd na'u diwygio fel arall i adlewyrchu newidiadau dilynol.

# Sicrhau bod tadau/partneriaid geni yn cael eu cynnwys ym mhob asesiad a gofal drwy gydol y cyfnod amenedigol

Y Pwyllgor Deisebau | 21 Mawrth 2022  
Petitions Committee | 21 March 2022

Cyfeirnod: SR22/2236-1

Rhif y ddeiseb: P-06-1255

**Teitl y ddeiseb:** Sicrhau bod tadau/partneriaid geni yn cael eu cynnwys ym mhob asesiad a gofal drwy gydol y cyfnod amenedigol

**Geiriad y ddeiseb:** Mae'r pandemig COVID-19 a'r rheoliadau dilynol wedi cael effaith ddinistriol ar lawer o dadau/partneriaid na chawsant eu caniatáu mewn sganiau, asesiadau neu weithiau hyd yn oed enedigaeth y babi.

Methodd llawer o dadau'r enedigaeth yn gyfan gwbl tra'n cael eu gadael y tu allan mewn meysydd parcio am oriau a hyd yn oed ddyddiau.

Rhaid cydnabod ac adolygu profiadau tadau er mwyn llywio penderfyniadau yn y dyfodol a chanllawiau'r GIG i sicrhau bod tadau/partneriaid yn cael eu trin yn deg ac nad ydynt yn cael eu hallgáu yn y dyfodol - hyd yn oed mewn pandemig.

Tra bod yr effaith negyddol ar famau wedi'i amlygu, mae hefyd yn bwysig cydnabod yr effaith ar dadau/partneriaid. Mae cael eu hallgáu fel hyn wedi arwain at faterion o ran lles ac iechyd meddwl, gorbryder a phryderon am iechyd y fam a'r babi tra'n cael eu hamddifadu o brofiadau mor werthfawr a phwysig.



---

# 1. Cefndir

Yn ystod y pandemig, rhoddwyd cyfyngiadau ar allu tadau/partneriaid geni i fod yn bresennol ar gyfer apwyntiadau mamolaeth a genedigaethau.

Yn yr ymateb i'r ddeiseb ar 1 Mawrth 2022, mae'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn nodi i'r cyfyngiadau ar bresenoldeb mewn lleoliadau gofal iechyd gael eu cyflwyno i sicrhau diogelwch a llesiant y rhieni geni, eu babanod, y staff a oedd yn cefnogi nhw ac eraill a oedd angen defnyddio at wasanaethau mamolaeth ar y pryd.

Ym mis Gorffennaf 2021, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru [ganllawiau ar gyfer ymweld ag ysbytai](#). Mae canllawiau pellach gan Lywodraeth Cymru ar [Lefel Rhybudd Sero](#) (Chwefror 2022) yn nodi bod y ffocws yn parhau i fod ar sicrhau cydbwysedd rhwng amddiffyn unigolion agored i niwed sy'n cael triniaeth mewn ysbytai a chaniatáu ymweliadau, sef rhywbeth sy'n bwysig i lesiant cleifion a ffrindiau a theuluoedd.

Yn atodiad 2 o'r [canllawiau ar gyfer ymweld ag ysbytai](#), ceir fframwaith i gynorthwyo byrddau iechyd y GIG i asesu mynediad i bartneriaid, ymwelwyr a phobl eraill sy'n rhoi cymorth i fenywod beichiog yng ngwasanaethau mamolaeth Cymru yn ystod y pandemig.

Mae'r fframwaith wedi cael ei lywio gan ganllawiau a ddarparwyd i GIG Lloegr gan Goleg Brenhinol y Bydwagedd, Coleg Brenhinol yr Obstetryddion a'r Gynaecolegwyr a'r fframwaith a gyhoeddwyd wedi hynny gan GIG Lloegr (Medi 2020).

Mae Atodiad 2 i'r canllawiau yn nodi ei bod yn ofynnol i fyrddau iechyd deilwra eu polisiau i'r sefyllfa leol, ac y dylai byrddau iechyd adolygu'r canllawiau yn ôl yr angen mewn cyfnodau pan fo cyfraddau trosglwyddiad COVID-19 lleol yn uchel a/neu amrywiolion sy'n peri pryder.

Awgrymir y dylai byrddau iechyd ddefnyddio dull lle mae risgiau wedi cael eu hasesu, yn dilyn asesiad, gan wneud unrhyw newidiadau angenrheidiol yn ôl cyfraddau trosglwyddiad y feirws yn lleol, naill ai i lacio neu i adfer lefelau blaenorol o gyfyngiadau.

Mae Atodiad 2 i'r canllawiau hefyd yn nodi:



Dylai polisiâu ar ganiatáu mynediad i bartneriaid menywod, ymwelwyr neu bobl eraill sy'n rhoi cymorth gael eu hadolygu'n rheolaidd, eu teilwra i'ch cyd-destun lleol ac ystyried:

- y risg pandemig cenedlaethol bresennol a pholisi'r llywodraeth;
- cyfnodau adfer y GIG;
- tueddiadau lleol yn nifer yr achosion o COVID-19;
- le ffisegol yn y gwasanaeth mamolaeth, gan gynnwys mewn mannau aros ac ystafelloedd clinig;
- nifer y menywod y disgwylir iddynt fynychu sgan neu glinig cleifion allanol, a'r defnydd o ardaloedd aros sy'n cael eu rhannu â gwasanaethau eraill;
- nifer y menywod a ddisgwylir mewn uned famolaeth cleifion mewnol (e.e. ward ôl-enedigol), pellter rhwng gwelyau a chotiau yn ogystal â'r llif drwy'r ward; a
- staffio'r clinig/uned mamolaeth.

Dylid hefyd ystyried anghenion menywod sydd angen cymorth ychwanegol i gael mynediad at wasanaethau mamolaeth ac i unrhyw addasiadau rhesymol y gall fod eu hangen arnynt.

Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ddatganiad atodol ar ymweld ag ysbytai yn ystod y pandemig ym mis Mehefin 2021 (fe'i diweddarwyd ddiwethaf ar 10 Ionawr 2022). Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod y gall amrywiadau ddigwydd yn y trosglwyddiad cymunedol mewn gwahanol rannau o Gymru. Mae'r canllawiau ar gyfer ymweld ag ysbytai yn nodi'r llinell sylfaen bresennol ar gyfer ymweliadau yng Nghymru yn ystod y pandemig. Fodd bynnag, mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod y gall darparwyr gofal iechyd y mae'r canllawiau'n gymwys iddynt wyro oddi wrth y canllawiau mewn ymateb i'r canlynol:

- lefelau cynyddol o drosglwyddiad COVID-19 yn eu hardaloedd, gan, a/neu dystiolaeth o drosglwyddiad nosocomiaidd o fewn lleoliad penodol; neu
- lefelau trosglwyddo sy'n gostwng yn eu hardal leol.

Ceir canllawiau pellach yn y datganiad atodol, ond dylai pob penderfyniad i wyro oddi wrth y canllawiau gael ei wneud gan dîm gweithredol y bwrdd iechyd, yr

ymddiriedolaeth neu'r hosbis, a hynny gyda'u timau atal a rheoli heintiau eu hunain mewn cydweithrediad ag Iechyd Cyhoeddus Cymru.

## 2. Camau gweithredu Senedd Cymru

Yn ystod y pandemig, gofynnodd Aelodau o'r Senedd nifer o gwestiynau ysgrifenedig a llafar yn ymwneud â chyfyngiadau ar dadau/partneriaid geni sy'n mynd gyda menywod beichiog i apwyntiadau meddygol ac i'r genedigaethau.

Ar 14 Medi 2021, dywedodd Heledd Fychan AS yn y Cyfarfod Llawn:

[D]wi wedi cael galwadau ffôn ac e-byst eithriadol o emosiynol gan famau yn sôn am effaith hyn o ran eu hiechyd meddwl nhw, tadau yn sôn bod hyn yn effeithio'r bond pwysig yna rhyngddyn nhw â'u plant, ac o ran pediatrig, plant eisiau'r ddau riant yna a phlant yn crio oherwydd eu bod nhw'n methu cael y ddau riant yna gyda nhw. [Paragraff 242]

Mewn ymateb i gwestiwn yn y Cyfarfod Llawn ar 19 Mai 2021, eglurodd y Prif Weinidog:

Mae'r canllawiau yng Nghymru yn annog y system i fod mor groesawgar â phosibl, ond mae'r rheswm dros ddisgresiwn yn real. Mae unedau mamolaeth ledled Cymru yn amrywio'n fawr o ran maint y safle, natur cynllun adeiladau ac yn y blaen, ac yn amlwg, mae gan unigolion lefelau gwahanol o risg eu hunain. Nid yw coronafeirws wedi diflannu; mae pobl sy'n sâl gyda'r clefyd yn aml yn gorfod mynd i'r ysbyty, ac yn y pen draw mae'n rhaid iddo fod yn benderfyniad clinigol a wneir gan y tîm o bobl sy'n gofalu am y fenyw a'i phartner o ran pa mor ddiogel yw hi i bobl eraill gymryd rhan uniongyrchol mewn apwyntiadau. Nawr, y polisi yw, lle bynnag y mae'n ddiogel gwneud hynny, mai dyna ddylai ddigwydd, ond nid wyf yn credu ein bod mewn sefyllfa yn y Senedd i wneud y penderfyniadau clinigol unigol hynny yn yr amgylchiadau ffisegol gwahanol a'r amgylchiadau unigol y mae pobl yn eu hwynebu. [Paragraff 148]

Cynhaliwyd dadl yn ystod y Cyfarfod Llawn ar 9 Rhagfyr 2020 ar gymorth i fabanod a rhieni newydd yn ystod COVID-19, lle y trafodwyd y cyfyngiadau a roddwyd ar dadau a phartneriaid geni.

### 3. Camau gweithredu Llywodraeth Cymru

Mewn gohebiaeth â'r Pwyllgor ar 1 Mawrth 2022, cydnabu'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol y byddai'r cyfyngiadau a oedd ar waith yn ystod y pandemig wedi cael effaith andwyol ar faint o amser y gallai rhai tadau a rhieni ei dreulio gyda'u babanod yn eu dyddiau cyntaf.

Cydnabyddir bod y berthynas â'r ddau riant yn hanfodol i les a datblygiad plentyn o'r dechrau'n deg. Mae'r Gweinidog yn datgan bod 'cefnogi a hybu cyfraniad cadarnhaol gan bob rhiant i fagwraeth plentyn yn ganolog i'n holl bolisiau ar gyfer plant a'r blynyddoedd cynnar'.

Mae'r Gweinidog yn tynnu sylw at y ffaith bod swyddogion Llywodraeth Cymru, wrth i Gymru gychwyn ar gyfnod newydd yn y pandemig, yn edrych ar y canllawiau a roddwyd i fyrddau iechyd i sicrhau bod polisiau ar gyfer ymweld, gan gynnwys presenoldeb tadau a phartneriaid mewn gwasanaethau mamolaeth, yn gynaliadwy ac yn briodol, a byddant yn ceisio lleihau amrywiaeth mewn polisi ledled Cymru. Bydd y Gweinidog am i'r cyngor hwn gadw'r ddysgl yn wastad rhwng diogelwch pobl a staff mewn lleoliadau gofal iechyd a'u llesiant a'u gallu i gael cymorth a gofal gan deulu a ffrindiau.

Ym mis Ionawr 2022, cyhoeddodd y Gweinidog £1.15 miliwn i lansio'r **Rhaglen Cefnogi Diogelwch mewn Gofal Mamolaeth a Newyddenedigol**. Fel rhan o'r Rhaglen hon, mae Llywodraeth Cymru yn ariannu Rheolwr Ymgysylltu â Defnyddwyr Gwasanaethau i edrych ar sut y gall Llywodraeth Cymru ymgysylltu'n well â rhieni a theuluoedd ar lefel genedlaethol ac ar lefel leol. Yn ôl y Gweinidog:

Rwy'n awyddus i sicrhau bod profiadau pob rhiant a theulu, gan gynnwys tadau, yn helpu i lywio polisi yn y dyfodol, yn ogystal â diogelwch ein gwasanaethau mamolaeth, amenedigol, a newyddenedigol, a bod y gwasanaethau hyn yn cael eu gwella drwy sicrhau eu bod yn deg ac yn gynhwysol i bawb.

I gefnogi'r gwaith canfod cychwynnol, mae'r Gweinidog yn cynnig bod y swyddog newydd, pan fydd yn dechrau yn ei swydd, yn cwrdd â'r deisebydd i drafod ei brofiadau a thrafod y newidiadau y byddai am eu gweld yn y dyfodol, o ran cynnwys tadau a phartneriaid ac ymgysylltu â nhw.

Gwneir pob ymdrech i sicrhau bod y wybodaeth yn y papur briffio hwn yn gywir adeg ei gyhoeddi. Dylai darllenwyr fod yn ymwybodol nad yw'r papurau briffio hyn o reidrwydd yn cael eu diweddarau na'u diwygio fel arall i adlewyrchu newidiadau dilynol.



Eich cyf/Your ref P-06-1255  
Ein cyf/Our ref EM/00500/22

Jack Sargeant AS  
Cadeirydd – y Pwyllgor Deisebau  
Senedd Cymru  
Bae Caerdydd  
Caerdydd  
CF99 1SN

1 Mawrth 2022

Annwyl Jack,

Diolch ichi am eich e-bost ar 27 Ionawr ynglŷn â Deiseb P-06-1255 Sicrhau bod tadau/partneriaid geni yn cael eu cynnwys ym mhob asesiad a gofal drwy gydol y cyfnod amenedigol.

Rwy'n cydnabod bod y berthynas â'r ddau riant yn hanfodol i les a datblygiad plentyn o'r dechrau'n deg. Mae cefnogi a hybu cyfraniad cadarnhaol gan bob rhiant i fagwraeth plentyn yn ganolog i'n holl bolisiâu ar gyfer plant a'r blynyddoedd cynnar

Yn ystod y pandemig, cafodd cyfyngiadau ar bresenoldeb eu gweithredu mewn lleoliadau gofal iechyd er mwyn sicrhau diogelwch a llesiant y rhieni a oedd yn rhoi genedigaeth, eu babanod, a'r staff a oedd yn eu cynorthwyo, a phawb arall yr oedd angen iddynt fynychu gwasanaethau mamolaeth ar y pryd. Yn anffodus, mae'n bosibl bod y cyfyngiadau hyn wedi lleihau'r amser yr oedd rhai tadau a rhieni'n gallu ei dreulio gyda'u babanod yn ystod y dyddiau cyntaf. Mae'r gallu i ganiatáu presenoldeb partneriaid mewn gwasanaethau mamolaeth wedi bod yn seiliedig ar ddull gweithredu lleol a'r asesiadau risg perthnasol a gynhelir gan bob bwrdd iechyd unigol. Mae llety a chyfleusterau gwasanaethau mamolaeth yn amrywio'n fawr o fwrdd i fwrdd, ac felly roedd yn rhaid i asesiadau risg annibynnol gael eu cynnal yn lleol.

Wrth inni symud i gyfnod newydd yn y pandemig, mae swyddogion yn edrych ar y canllawiau a ddarparwyd i fyrddau iechyd ar gyfer sicrhau y bydd polisiâu ymweld, gan gynnwys presenoldeb tadau a phartneriaid mewn gwasanaethau mamolaeth, yn gynaliadwy ac yn briodol, gan ystyried sut y gellid lleihau'r gwahaniaethau mewn polisi ar draws Cymru. Byddaf yn disgwyl i'r cyngor hwn gydbwyso diogelwch pobl sy'n mynychu ac yn gweithio yn ein lleoliadau gofal iechyd ar yr un llaw, â llesiant teulu a chyfeillion a mynediad at gymorth a gofal.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay  
Caerdydd • Cardiff  
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:  
0300 0604400

[Gohebiaeth.Eluned.Morgan@llyw.cymru](mailto:Gohebiaeth.Eluned.Morgan@llyw.cymru)  
[Correspondence.Eluned.Morgan@gov.wales](mailto:Correspondence.Eluned.Morgan@gov.wales)

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Ym mis Ionawr, cyhoeddais £1.15 miliwn ar gyfer lansio Rhaglen Cefnogi Diogelwch mewn Gofal Mamolaeth a Newyddenedigol. Fel rhan o'r rhaglen hon rydym yn cyllido Rheolwr Ymgysylltu â Defnyddwyr Gwasanaeth a fydd yn ystyried sut y gallwn ymgysylltu'n fwy effeithiol â rhieni a theuluoedd ar lefel genedlaethol ac ar lefel leol. Rwy'n awyddus i sicrhau bod profiadau pob rhiant a theulu, gan gynnwys tadau, yn helpu i lywio polisi yn y dyfodol, yn ogystal â diogelwch ein gwasanaethau mamolaeth, amenedigol, a newyddenedigol, a bod y gwasanaethau hyn yn cael eu gwella drwy sicrhau eu bod yn deg ac yn gynhwysol i bawb.

Er mwyn cefnogi'r gwaith canfod cychwynnol, byddai'n ddefnyddiol iawn pe bai'r swyddog newydd, pan fydd yn dechrau yn ei swydd, yn gallu cyfarfod â'r deisebwr i drafod ei brofiadau a thrafod y newidiadau y byddai am eu gweld yn y dyfodol, o ran cynnwys tadau a phartneriaid ac ymgysylltu â nhw. Os ydych yn teimlo y byddai hon yn ffordd dda ymlaen, byddwn yn ddiolchgar pe gallech ofyn i'r deisebwr a fyddai'n fodlon rhannu ei fanylion cyswilt â'm swyddfa. Neu fel arall, mae croeso iddo gysylltu'n uniongyrchol â Karen Jewell, y Swyddog Nyrsio ar gyfer Mamolaeth a'r Blynyddoedd Cynnar ( [Karen.jewell@gov.wales](mailto:Karen.jewell@gov.wales) ) i drefnu cyfarfod.

Diolch ichi am dynnu fy sylw at y mater pwysig hwn.

Yn gywir,



**Eluned Morgan AS/MS**

Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol  
Minister for Health and Social Services

**P-06-1255 Ensure fathers/birth partners are involved in all assessments & care throughout the perinatal period, Correspondence – Petitioner to Committee, 14.03.22**

Dear committee - Thank you for bringing this to attention. The biggest killer in men under 45 is suicide in the UK. The highest risk up to 47 times is during the perinatal period in father's.

Since Covid we have seen higher rates of antenatal anxiety and depression in father's which may have a impact on the mother's mental health and the devolpment of the child.

By supporting father's better may lower adverse childhood experiences ( ACES) when father's are depressed the research shows they are less likely to play, read and dance with their children.

Covid has seen father's outside car parks for days leaving uncertainty and mother's willing their partners at scans. If we invest in father's mental health it will have far better outcomes for the whole family and the devolpment of the child.

Father's who suffer Postnatal Depression and PTSD after witnessing a traumatic birth has linked with depression in teenage daughters ( 2019) It looks different as father's surpress their feeling and use negative coping skills and avoid situations etc.

Canada has done a report that 1 in 4 father's suffer anxiety and depression maybe due to COVID-19 or due to men opening up about their feeling better. Like mums father's struggles to bond and all the thoughts and feeling mum has with PND of course dad's can too.

I would like to see better support and debrief for father's and better understanding if anything like COVID-19 happens again. Better pathways

## P-06-1256 Cynnal refferendwm ar Gymru yn dod yn Genedl Noddfa

Y Pwyllgor Deisebau | 21 Mawrth 2022  
Petitions Committee | 21 March 2022

Cyfeirnod: SR22/2236-2

Rhif y ddeiseb: P-06-1256

Teitl y ddeiseb: Cynnal refferendwm ar Gymru yn dod yn Genedl Noddfa

Testun y ddeiseb: Gyda'r digwyddiadau diweddar yn Affganistan a Mark Drakeford yn ein hatgoffa ni i gyd fod Llywodraeth Cymru am i Gymru fod yn Genedl Noddfa, rydym wir o'r farn y dylai hwn fod yn benderfyniad sy'n cael ei wneud gan bobl Cymru. Rydym yn teimlo, gan mai pobl Cymru fydd yn ariannu hyn yn rhannol trwy drethi, mae gennym hawl i benderfynu ai dyma'r penderfyniad iawn i Gymru. Dylid cynnal refferendwm ar Gymru yn dod yn Genedl Noddfa.

Yn ddiweddar, [dywedodd Mark Drakeford](#) ar Twitter "Rydym am i Gymru ddod yn Genedl Noddfa a byddwn yn gwneud popeth yn ein gallu i gefnogi pobl sy'n gadael Affganistan".

Mae llawer o sylwadau wedi'u gwneud am sut nad oes gan Gymru'r cyfleusterau na'r seilwaith ariannol i dderbyn pobl o bob cwr o'r byd a rhoi cartref iddynt. Fel y soniwyd, mae gennym ein problemau digartrefedd, cyffuriau/alcohol ac argyfwng iechyd meddwl ein hunain, ac ar ben hynny, mae'r economi'n chwalu oherwydd Covid. Mae'n deg dweud na allwn gefnogi mwy o bobl tra bod gennym ein problemau ein hunain i'r fath raddau. Am y rhesymau hyn, rydym yn galw am gynnal refferendwm ar Gymru yn dod yn Genedl Noddfa. Ni ddylai'r penderfyniad hwn erioed fod





wedi cael ei wneud heb unrhyw bleidlais gan y cyhoedd. Ni etholwyd unrhyw un ar faniffesto nac addewid i wneud hyn.

## 1. Cefndir

### 1.1. Cyfrifoldebau rhyngwladol

Mae gan y DU gyfrifoldebau cyfreithiol rhyngwladol i ddiogelu ffoaduriaid. Ochr yn ochr â 148 o wledydd eraill, mae'r DU yn rhan o Confensiwn Ffoaduriaid 1951, sef cytundeb byd-eang a oruchwylir gan y Cenhedloedd Unedig. Prif egwyddor y Confensiwn Ffoaduriaid yw '*non-refoulement*', sef na ddylai ffoaduriaid orfod dychwelyd i wlad lle mae bygythiad difrifol i'w bywydau neu eu rhyddid.

Mae'r DU hefyd yn rhan o gytuniadau eraill sy'n diogelu ffoaduriaid, fel y Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol.

O dan y setliad datganoli, mae'n ofynnol i Lywodraeth Cymru gydymffurfio â'r rhwymedigaethau hyn. Yn 2019, dywedodd Llywodraeth Cymru mai Cymru fyddai 'Cenedl Noddfa' gyntaf y byd. Mae'r cynllun yn esbonio sut y bydd yn sicrhau bod Cymru yn cyflawni ei rhwymedigaethau rhyngwladol a chafodd ei gymeradwyo gan y Cenhedloedd Unedig.

### 1.2. Diffiniadau

Mae Llywodraeth y DU wedi ymrwymo i adsefydlu 20,000 o ffoaduriaid Affganistan yn y DU. Mae Confensiwn Ffoaduriaid 1951 yn disgrifio ffoadur fel a ganlyn:

person sydd y tu allan i'w wlad ei genedligrwydd/chenedligrwydd neu breswylfa arferol; mae ganddo/ganddi ofn ar sail dda o erledigaeth oherwydd ei hil, crefydd, cenedligrwydd, aelodaeth o grŵp cymdeithasol penodol neu farn wleidyddol; ac yn methu neu'n anfodlon manteisio ar amddiffyniad y wlad honno, neu ddychwelyd yno, oherwydd ei bod/fod yn ofni erledigaeth.

Mae hyn yn wahanol i'r diffiniad o geisiwr lloches. Mae ffoaduriaid eraill o Affganistan yn debygol o gyrraedd y DU o'u gwirfodd a hawlio lloches. Dyma'r diffiniad o geisiwr lloches:

person sydd wedi croesi ffin ryngwladol i chwilio am amddiffyniad, ond nad oes penderfyniad wedi cael ei wneud ynghylch ei gais/chais am statws ffoadur, hyd yn hyn. Mae ceisiwr lloches, felly, yn rhywun sydd wedi cyrraedd gwlad ac wedi gofyn am loches. Hyd nes ceir penderfyniad ynghylch a ydyw'n ffoadur ai peidio, caiff ei alw'n geisiwr lloches.

Yn y DU, nid oes gan geiswyr lloches yr un hawliau â ffoaduriaid neu ddinasyddion Prydeinig. Er enghraifft, ni chaniateir i bobl sy'n ceisio lloches weithio na hawlio budd-daliadau.

### 1.3. Cefnogaeth Llywodraeth y DU i geiswyr lloches

Mae Llywodraeth y DU yn darparu tai a chefnogaeth ariannol i geiswyr lloches a hefyd yn caniatáu iddynt ddefnyddio gwasanaethau os ydynt yn bodloni'r gofnion cymhwysedd (sef eu bod yn ddigartref neu nid oes ganddynt arian i brynu bwyd). Os caiff cais am loches ei wrthod, gall person fod yn gymwys i gael cymorth tymor byr o dan adran 4(2) o Ddeddf Mewnfudo a Lloches 1999.

Darperir llety i geiswyr lloches ond ni chânt ddewis ble yn y DU y byddant yn byw. Bydd ceiswyr lloches sy'n cael cymorth yn cael eu rhoi mewn llety dros dro a reolir gan ddarparwyr ar ran y Swyddfa Gartref.

Mae'r DU yn gweithredu tri chynllun adsefydlu: Cynllun Adsefydlu'r DU (UKRS), Cynllun Nawdd Cymunedol, a Chynllun Adsefydlu Mandadol. Mae llwybrau eraill yn cynnwys aduniad teuluol.

Ym mis Medi 2021, cyhoeddodd Llywodraeth y DU ddau gynllun adsefydlu i'r rhai sy'n ffoi o Affganistan.

- Polisi Adleoli a Chynorthwyo Affganiaid. Mae ARAP, neu'r 'Ymgyrch Croeso Cynnes', yn berthnasol i Affganiaid sydd wedi gweithio'n agos gyda byddin Prydain a Llywodraeth y DU yn Afghanistan.
- Mae Cynllun Adsefydlu Dinasyddion Affganistan yn berthnasol i ddinasyddion Afghanistan yr ystyrir eu bod yn wynebu'r perygl mwyaf o

ran colli eu hawliau dynol a chael eu trin gan y Taliban mewn modd sy'n eu dad-ddyneiddio, gan gynnwys merched o bob oed.

Ar hyn o bryd, mae Llywodraeth y DU yn ymateb i'r argyfwng dyngarol yn Wcráin ac mae wedi cyhoeddi Llwybr nawdd dyngarol: Mae Aelodau o'r Senedd o bob plaid wleidyddol wedi datgan cefnogaeth gref i gynnig noddfa yng Nghymru i'r rhai sy'n ffoi o Wcráin.

## 1.4. Y Bil Cenedligrwydd a Ffiniau

Cyflwynodd Llywodraeth y DU y Bil Cenedligrwydd a Ffiniau yn Nhŷ'r Cyffredin ym mis Gorffennaf 2021. Mae gan y Bil dri amcan:

- Cynnig system decach i sicrhau bod y rhai y mae angen lloches arnynt yn cael eu diogelu a'u cynorthwyo'n well;
- Atal pobl rhag dod i mewn i'r DU yn anghyfreithlon, gan gael gwared ar y model busnes sy'n creu rhwydweithiau smyglo pobl ac amddiffyn bywydau'r rhai y mae'r model hwn yn eu peryglu;
- Ei gwneud yn haws symud pobl o'r DU os nad oes ganddynt hawl i fod yn y wlad.

Mae'r Bil wedi'i beirniadu gan lawer. Mae Asiantaeth Ffoaduriaid y Cenhedloedd Unedig (UNHCR) yn rhybuddio bod y Bil yn tanseilio Confensiwn Ffoaduriaid 1951, y cytundeb sydd wedi amddiffyn ffoaduriaid ers degawdau ac y mae'r DU wedi'i lofnodi.

Pleidleisiodd Tŷ'r Arglwyddi yn erbyn nifer o gymalau, gan gynnwys Cymal 11 a fyddai wedi creu system dwy haen yn seiliedig ar y llwybr mynediad i'r DU. Cynhelir trydydd darlleniad o'r Bil cyn y bydd yn dychwelyd i Dŷ'r Cyffredin.

Mae'r Senedd wedi gwrthod rhoi ei chydysniad i'r 'Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol' ar y Mesur Cenedligrwydd a Ffiniau a gafodd ei drafod yn y Cyfarfod Llawn ar 15 Chwefror 2022.

## 2. Camau a gymerwyd gan Lywodraeth Cymru

Mae mewnfudo yn fater a gadwyd yn ôl ac felly ychydig iawn o ddylanwad sydd gan Lywodraeth Cymru yn y broses o ddatblygu polisiau a gwneud

penderfyniadau ar lefel y DU. Fodd bynnag, mae Llywodraeth Cymru yn gyfrifol am amrywiaeth eang o bolisiâu sy'n helpu ymfudwyr i integreiddio gan gynnwys iechyd a gofal cymdeithasol, tai, addysg, cyflogaeth ac mae'n gyfrifol am reoli effeithiau ymfudo a sicrhau bod cymunedau'n gydlynol.

Yn 2019, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru mai Cymru fyddai 'Cenedl Noddfa' gyntaf y byd, a hynny fel ymateb i ymchwiliad gan Bwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau y Bumed Senedd yn 2017.

Mae asesiad effaith a gynhaliodd Llywodraeth Cymru yn crynhoi sut y mae'r polisi: yn ceisio dymchwel rhwystrau i geiswyr lloches ddefnyddio gwasanaethau, gwella cymorth cyflogadwyedd i ffoaduriaid, gwella integreiddio a gwybodaeth am hawliau i ffoaduriaid a cheiswyr lloches a lliniaru amddifadedd, salwch meddwl a digartrefedd.

At hynny, roedd y cynllun yn gyfle i Lywodraeth Cymru roi ei safbwynt ar drefniadau datganoli, o gofio bod lloches a mewnfudo'n faterion a gadwyd yn ôl gan Lywodraeth y DU:

Llywodraeth y DU, yn hytrach na Llywodraeth Cymru, sy'n gyfrifol am loches a mewnfudo. O ganlyniad, ni allwn reoli rhai o'r dylanwadau allweddol ar gyfer atal canlyniadau niweidiol, fel gwneud penderfyniadau prydlon a da ynghylch achosion lloches, sicrhau llety o ansawdd da a chynnig cymorth cyfreithiol.

Fodd bynnag, er mwyn sicrhau bod ffoaduriaid a cheiswyr lloches yn integreiddio'n llwyddiannus, bydd rhaid cael ymdrech gytûn ar ran Llywodraeth Cymru, gwasanaethau cymdeithasol Cymru a chymunedau Cymru.

Mewn gohebiaeth â'r Pwyllgor Deisebau ar 11 Chwefror 2022, esboniodd y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol fod Cynllun Cenedl Noddfa wedi'i ddatblygu drwy "ymgyngoriad agored dros gyfnod o dri mis." pan glywyd gan bobl a oedd yn ceisio noddfa, gwasanaethau cyhoeddus ac roedd hefyd yn agored i'r cyhoedd. Cyfeiriodd y Gweinidog at y crynodeb o'r ymatebion a dywedodd eu bod dangos cefnogaeth sylweddol i'r cynigion drafft ar gyfer creu Cenedl Noddfa.

Gwneir pob ymdrech i sicrhau bod y wybodaeth yn y papur briffio hwn yn gywir adeg ei gyhoeddi. Dylai darllenwyr fod yn ymwybodol nad yw'r papurau briffio hyn yn cael eu diweddarau o reidrwydd na'u diwygio fel arall i adlewyrchu newidiadau dilynol.



Ein cyf/Our ref JH-/00116/22

Jack Sargeant AS  
Cadeirydd y Pwyllgor Deisebau  
Senedd Cymru  
Bae Caerdydd  
Caerdydd  
CF99 1SN  
Government.Committee.Business@llyw.cymru

11 Chwefror 2022

Annwyl Jack

Diolch am eich llythyr diweddar ar ran y Pwyllgor Deisebau yn ceisio sylwadau mewn perthynas â Deiseb P-06-1256. Mae'r ddeiseb hon yn gofyn inni ystyried y cais i gynnal refferendwm ar bolisi Cenedl Noddfa Llywodraeth Cymru, gan gyfeirio yn benodol at y costau sy'n gysylltiedig ag adsefydlu pobl sydd wedi cael eu symud o Affganistan.

Mae cydraddoldeb a hawliau dynol yn ganolog i waith Llywodraeth Cymru a'n gweledigaeth i Gymru. Maent hefyd wrth wraidd ein hunaniaeth genedlaethol. Nid awydd i gau llygad ar yr hyn sy'n digwydd sy'n diffinio cadernid y Cymry yn fy marn i, ond trugaredd â gwreiddiau dwfn yn ein hunaniaeth. Mae'r argyfwng a welsom yn Affganistan ar ddiwedd 2021, sy'n parhau hyd heddiw, yn dangos y ffordd y mae'r trugaredd a'r caredigrwydd hwn yn parhau yng nghalonau'r Cymry.

Datblygwyd cynllun Cenedl Noddfa drwy ymgynghoriad agored dros gyfnod o dri mis a ddechreuodd ar 22 Mawrth 2018 ac a ddaeth i ben ar 24 Mehefin 2018. Gwnaethom gwrdd â gwasanaethau cyhoeddus a phobl a oedd yn chwilio am noddfa ledled Cymru a gwrando arnynt, cyn ac yn ystod yr ymgynghoriad. Roedd modd i'r cyhoedd gynnig sylwadau drwy'r ymgynghoriad hefyd. Mae copi o grynoded o'r ymatebion i'r ymgynghoriad i'w weld [yma](#). Fel y mae'r adroddiad yn ei adrodd yn glir, "Yn gyffredinol, mae'r ymatebion i'r ymgynghoriad yn dangos cefnogaeth sylweddol i'r cynigion yn y fersiwn ddrafft o'r Cynllun."

Dylwn hefyd nodi bod y ddeiseb hon yn debyg iawn i ddeiseb P-06-1174 a ddaeth gerbron eich Pwyllgor ym mis Gorffennaf 2021. Yn ystod cyfarfod y Pwyllgor a gynhaliwyd ar 13 Medi 2021, dwedodd Joel James AS, sy'n aelod o'r Pwyllgor, ei fod yn gwybod bod maniffesto'r Ceidwadwyr wedi cynnwys y syniad o greu cenedl noddfa yn flaenorol, a'i fod yn tybied bod maniffesto'r Blaid Lafur wedi cynnwys y syniad hwnnw hefyd. Dywedodd fod etholiad wedi cael ei gynnal yn ddiweddar, ac y dylai hynny rhoi pen ar y drafodaeth

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:  
0300 0604400

Bae Caerdydd • Cardiff Bay  
Caerdydd • Cardiff  
CF99 1SN


[Gohebiaeth.Jane.Hutt@llyw.cymru](mailto:Gohebiaeth.Jane.Hutt@llyw.cymru)  
[Correspondence.Jane.Hutt@gov.wales](mailto:Correspondence.Jane.Hutt@gov.wales)

Rydym yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

Tudalen y pecyn 64  
We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

ynghylch cynnig barn am y mater, ni waeth a yw pobl yn cefnogi canlyniad yr etholiad neu a ydynt yn fodlon arno. Ychwanegodd ei bod yn debyg y byddent yn cytuno yn y pen draw nad oes unrhyw gamau pellach i'w cymryd, ac y dylid cau'r ddeiseb mewn gwirionedd. Aeth ymlaen i ddweud bod trafodaethau helaeth eisoes wedi cael eu cynnal ar y mater hwn, yn Siambr y Senedd hyd yn oed.

Nod cynllun Cenedl Noddfa yw sicrhau bod pobl sy'n ceisio noddfa yn gallu ailsefydlu eu bywydau yma. Mae'n ymwneud â sicrhau bod modd iddynt fod yn rhan o'u cymunedau a chael cyfle i ddefnyddio eu sgiliau a'u profiadau cymaint â phosibl. Mae ymrwymiad y Llywodraeth hon i'r cynllun Cenedl Noddfa a'r bobl y mae'n ceisio eu cefnogi, gan gynnwys pobl o Affganistan, yn parhau i fod yn gadarn.

A handwritten signature in black ink that reads "Jane Hutt". The signature is written in a cursive style with a long horizontal line above the first few letters.

**Jane Hutt AS/MS**

Y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol  
Minister for Social Justice

## Lleihau'r dreth gyngor ar gyfer ystadau preifat

Y Pwyllgor Deisebau | 21 Mawrth 2022  
Petitions Committee | 21 March 2022

Cyfeirnod: SR22/2236-3

Rhif y ddeiseb: P-06-1257

Teitl y ddeiseb: Lleihau'r dreth gyngor ar gyfer ystadau preifat

Testun y ddeiseb:

Dylai fod yn ofynnol i gynghorau leihau'r dreth gyngor ar gyfer eiddo sy'n rhan o ystadau "preifat", gan fod yr holl gostau cynnal a chadw ar gyfer yr ardaloedd cymunedol yn cael eu talu gan berchnogion yr eiddo, a all fod yn lesddeiliaid neu'n rhydd-ddeiliaid.

Nid yw'r cynghorau lleol yn derbyn cyfrifoldeb am gostau cynnal a chadw mewn ardaloedd cymunedol ar ystadau tai newydd. Mae hyn yn arwain datblygwr i benodi cwmnïau rheoli i'w wneud am gost na chaiff y rhydd-ddeiliaid ei thrafod na'i herio. Felly, mae'r gost o gynnal yr ardaloedd cymunedol hyn ar ystadau tai newydd yn cael ei hysgwyddo fwyfwy gan berchnogion tai. Fodd bynnag, nid yw'r perchnogion tai hyn yn cael unrhyw ostyngiad cyfatebol ym miliau'r dreth gyngor.





## 1. Cefndir

Lle nad yw'r awdurdod lleol wedi mabwysiadu ardaloedd cyffredin ar gyfer ystadau tai – er enghraifft, ffyrdd, mannau agored a chyfleusterau chwarae – ceir rhoi trefniadau preifat ar waith i sicrhau eu bod yn cael eu cynnal. Pan fydd hyn yn digwydd, bydd fel arfer yn arwain at godi tâl ar breswylwyr gan gwmni rheoli neu asiant, i dalu am gynnal a chadw'r ardaloedd hynny.

Bydd lesddeiliaid yn talu'r ffioedd hyn trwy eu taliad gwasanaeth, a bydd rhydd-ddeiliaid yn ddarostyngedig i dâl rhent ystâd. Gall tenantiaid dalu'r costau hyn trwy eu rhent neu daliad gwasanaeth.

## 2. Camau a gymerwyd gan Lywodraeth Cymru

Mae'r Rhaglen Lywodraethu yn cynnwys ymrwymiad i "sicrhau bod taliadau ystâd am fannau agored cyhoeddus a chyfleusterau cyhoeddus yn cael eu talu mewn ffordd sy'n deg."

Bu Llywodraeth Cymru'n ymgynghori ynghylch taliadau rheoli ystadau yn 2020. Cyhoeddwyd crynodeb o'r ymatebion i'r ymgynghoriad ar 30 Tachwedd 2020, ynghyd â datganiad ysgrifenedig i'r Senedd gan y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol ar y pryd. O ran y camau nesaf i Lywodraeth Cymru, mae crynodeb yr ymgynghoriad yn nodi fel a ganlyn:

Mae'n amlwg o'r dystiolaeth a ddarparwyd nad yw taliadau ystadau yn gweithio'n effeithiol i bawb o dan y trefniadau presennol. Felly, bydd y Gweinidog yn defnyddio'r dystiolaeth a gasglwyd i ystyried y meysydd lle mae angen newidiadau a'r opsiynau posibl a all fod ar gael er mwyn rhoi'r newidiadau hynny ar waith.

Megis dechrau proses o newid yw'r cam hwn, a chaiff unrhyw newidiadau a gynigir neu a ystyrir eu datblygu ar y cyd â'r diwydiant. Byddai unrhyw newidiadau hefyd yn destun ymgynghoriad ffurfiol arall a phroses o ymgysylltu â rhanddeiliaid, gan gynnig cyfle arall i roi adborth.

Mae'r Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol wedi ysgrifennu at y Cadeirydd yn cynnig sylwadau ar y ddeiseb hon. Mae'r Gweinidog yn nodi nad yw'r dreth gyngor yn uniongyrchol gysylltiedig â derbyn gwasanaethau penodol, ond yn hytrach mae'n darparu cyllid cyffredinol ar gyfer amrywiaeth o wasanaethau cyhoeddus.

Mae'r Gweinidog hefyd yn nodi yn ei llythyr bod gwaith ar y gweill i gyflawni nifer o gamau i fynd i'r afael ag achosion a symptomau ffioedd ystadau sy'n cael eu gosod ar ddeiliaid tai, a dywed fod hyn yn cynnwys deddfu i alluogi rhydd-ddeiliaid i herio rhesymoldeb ffioedd ystadau (ar yr un sail ag y gall lesddeiliaid ei wneud ar hyn o bryd), ynghyd â rheoleiddio cwmnïau rheoli eiddo preswyl.

### 3. Camau gweithredu Senedd Cymru

Codwyd mater o ran taliadau ystâd ar sawl achlysur yn y Senedd.

Ar 14 Mawrth 2018, bu'r Senedd yn trafod Cynnig Deddfwriaethol yr Aelodau ar Gwmnïau Rheoli Ystadau. Roedd y cynnig – gan Hefin David AS – yn un am Fil ar gyfer rheoleiddio cwmnïau rheoli ystadau. Roedd y Bil arfaethedig i gynnwys, ymhlith pethau eraill, rhoi hawliau cyfatebol i rydd-ddeiliaid â'r rheini sydd gan lesddeiliaid, i herio rhesymoldeb taliadau. Wrth ymateb i'r ddadl, ymrwymodd y Gweinidog Tai ac Adfywio ar y pryd, Rebecca Evans, i sefydlu'r grŵp gorchwyl a gorffen i archwilio'r mater hwn, ymhlith eraill. Sefydlwyd y grŵp hwnnw ac yn dilyn hynny, cyhoeddodd ei adroddiad ym mis Gorffennaf 2019.

Yn dilyn etholiad 2021, ar 15 Mehefin 2021, codwyd y mater ynghylch taliadau ystâd eto yn y Senedd gan Hefin David AS. Gofynnodd am ddatganiad gan y Gweinidog Newid Hinsawdd ar y mater. Wrth ymateb ar ran y Llywodraeth, dywedodd Lesley Griffiths AS “...mae'r Gweinidog Newid Hinsawdd yn ystyried yr holl opsiynau sydd ar gael cyn gwneud unrhyw benderfyniadau eraill.”

Ym mis Tachwedd 2021, ystyriodd y Pwyllgor Deisebau ddeiseb yn galw ar Lywodraeth Cymru i ddeddfu i roi i rydd-ddeiliaid mewn eiddo sydd newydd ei adeiladu yr hawl i reoli eu hystâd eu hunain. Ar ôl cael gohebiaeth gan y Gweinidog Newid Hinsawdd yn trafod pryderon y deisebydd, cytunodd y Pwyllgor i gau'r ddeiseb. Roedd y Gweinidog wedi nodi yn y llythyr hwnnw fod Llywodraeth Cymru yn ystyried nifer o gamau deddfwriaethol ac anneddfwriaethol a'i bod hefyd yn cydweithredu â Llywodraeth y DU ar y mater.

Gwneir pob ymdrech i sicrhau bod y wybodaeth yn y papur briffio hwn yn gywir adeg ei gyhoeddi. Dylai darllenwyr fod yn ymwybodol nad yw'r papurau briffio hyn yn cael eu diweddarau o reidwydd na'u diwygio fel arall i adlewyrchu newidiadau dilynol.



Eich cyf/Your ref: P-06-1257

Ein cyf/Our ref: RE-00051-22

Jack Sargeant AS  
Cadeirydd – y Pwyllgor Deisebau  
Senedd Cymru  
Bae Cardiff  
Caerdydd  
CF99 1SN  
[Government.Committee.Business@llyw.cymru](mailto:Government.Committee.Business@llyw.cymru)

8 Chwefror 2022

Annwyl Jack

Diolch ichi am eich llythyr ynglŷn â Deiseb P-06-1257, Lleihau'r dreth gyngor ar gyfer eiddo ar ystadau preifat.

Y Gweinidog Newid Hinsawdd sy'n arwain ar gyflawni ein hymrwymiad yn y Rhaglen Lywodraethu i 'sicrhau bod taliadau ystad am fannau agored cyhoeddus a chyfleusterau cyhoeddus yn cael eu talu mewn ffordd sy'n deg'. Mae nifer o gamau'n cael eu cymryd i roi sylw i achosion a symptomau'r taliadau ystad sy'n cael ei godi ar ddeiliaid tai, gan gynnwys:

- Deddfwriaeth i greu systemau cyson ar gyfer cydsynio, mabwysiadu a thalu, sy'n cael eu gweithredu gan awdurdodau lleol;
- Deddfwriaeth i roi sylw i fethiant awdurdodau lleol i fabwysiadu cynlluniau draenio sy'n bodoli eisoes a chynlluniau newydd;
- Deddfu i alluogi rhydd-ddeiliaid i herio rhesymoldeb taliadau ystad (ar yr un sail ag y mae lesddeiliaid yn gallu gwneud hynny ar hyn o bryd);
- Rheoleiddio cwmnïau rheoli eiddo preswyl.

Nid yw'r dreth gyngor yn ffi wasanaethau ond yn hytrach yn dreth leol sy'n cyfrannu at y cyllid cyffredinol ar gyfer amrywiaeth eang o wasanaethau lleol. Nid yw'n gysylltiedig yn uniongyrchol â chael gwasanaethau penodol. Mae'r cyllid cyffredinol hwn yn talu am amrywiaeth eang o wasanaethau lleol, gan gynnwys addysg, gwasanaethau cymdeithasol, tai, trafndiaeth, casglu gwastraff ac ailgylchu, gwasanaethau amgylcheddol a darparu gwasanaethau hamdden – gwasanaethau y mae'r holl drethdalwyr lleol yn elwa arnynt. Mae aelwydydd unigol yn amrywio'n fawr o ran eu defnydd o wasanaethau penodol, gan ddbynnu ar lawer o ffactorau, gan gynnwys daearyddiaeth ac amgylchiadau'r aelwyd ei hun.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:  
0300 0604400

Bae Caerdydd • Cardiff Bay  
Caerdydd • Cardiff  
CF99 1SN

[Correspondence.Rebecca.Evans@gov.wales](mailto:Correspondence.Rebecca.Evans@gov.wales)  
[Gohebiaeth.Rebecca.Evans@llyw.cymru](mailto:Gohebiaeth.Rebecca.Evans@llyw.cymru)

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. **Tudalen y pecyn 69** Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Mae amwynderau ar ddatblygiadau ystadau preifat yn cael eu darparu fel gwasanaethau penodol o dan drefniadau ar wahân.

Dylai unrhyw aelwyd sy'n cael anawsterau i dalu ei bil treth gyngor gysylltu â'i hawdurdod lleol er mwyn gweld a yw'n gymwys i gael disgownt neu ostyngiad. Yn ogystal â'r amrywiaeth o gynlluniau gorfodol sydd ar waith, mae gan awdurdodau lleol bwerau disgresiwn i leihau biliau treth gyngor ar gyfer aelwydydd neu eiddo penodol.

Yn gywir,

A handwritten signature in black ink that reads "Rebecca Evans." The signature is written in a cursive, flowing style.

**Rebecca Evans AS/MS**

Y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol  
Minister for Finance and Local Government



**P-06-1257 Reduced Council Tax for private estate properties, Correspondence –  
Petitioner to Committee, 11.03.22**

Firstly, I welcome the work being carried out by the Welsh government to address the **unreasonable & unregulated** charges put upon residents of managed estates.

However it was on 6th February 2020, that the Minister for Housing and Local Government launched a Call for Evidence into the practice of estate charges. When are we likely to see some progress and actions to this report?

Also do Welsh Local Authorities have or need the power to create their own maintenance company?

South Somerset CC set up their own maintenance company to manage public open space on private estates. They didn't adopt but took control and charged home owners a reasonable amount but no reduction in Council Tax.

# Gwahardd bagiau baw cŵn nad ydynt yn fiogdiraddiadwy

Y Pwyllgor Deisebau | 21 Mawrth 2022  
Petitions Committee | 21 March 2022

Cyfeirnod: SR22/2236-5

Rhif y ddeiseb: P-06-1259

Teitl y ddeiseb: Gwahardd bagiau baw cŵn nad ydynt yn fiogdiraddiadwy

Geiriad y ddeiseb: Mae bagiau plastig gwastraff cŵn yn para am ganrifoedd, ac maent yn cael effaith negyddol sylweddol ar yr amgylchedd. Hyd yn oed pan fyddant yn torri'n ddarnau llai yn y pen draw, maent yn dal i fodoli fel microplastigau gwenwynig, sy'n peryglu iechyd pobl a bywyd gwyllt.

## 1. Cefndir

Mae tua naw miliwn o gŵn yn y DU, gyda 26% o gartrefi yn berchen ar o leiaf un ci. Amcangyfrifwyd bod cŵn yn cynhyrchu mwy na 1,000 o dunelli o ysgarthion bob dydd yn y DU ac mae llawer o'r gwastraff hwn yn cael ei ollwng mewn manau cyhoeddus.

Mae amrywiaeth eang o fagiau baw cŵn ar gael i'w prynu – o rai plastig safonol i fagiau bioddiraddadwy. Mae bagiau gwastraff cŵn fel arfer yn cael eu gwaredu mewn biniau gwastraff cyffredinol ("bagiau du"). Mae'n anghyfreithlon i



berchnogion cŵn beidio â glanhau baw eu cŵn mewn man cyhoeddus, a gellir rhoi [hysbysiadau cosb benodedig](#) am ddiffyg cydymffurfio. Mae [esemptiad](#) ar gyfer rhai mathau o dir cyhoeddus yng Nghymru a Lloegr, gan gynnwys: tir a ddefnyddir ar gyfer amaethyddiaeth neu goetiroedd; tir comin gwledig; tir sy'n gorstir, rhostir neu weundir yn bennaf; a phrifyrdd gyda therfyn cyflymder o 50mya neu fwy. Mae rhai awdurdodau lleol yng Nghymru hefyd yn [rhoi dirwyon](#) i berchnogion cŵn sy'n mynd â'u hanifeiliaid anwes am dro heb gario bagiau gwastraff. Mae rhagor o wybodaeth am faw ci ar gael yn [nogfen brifio llyfrgell Tŷ'r Cyffredin](#).

Ym mis Mawrth 2021, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei strategaeth ar gyfer yr economi gylchol, [Mwy nag Ailgyrchu](#), sy'n cynnwys fel un o'i phrif gamau y nod o "roi'r gorau'n raddol i ddefnyddio eitemau untro diangen". Rhwng mis Gorffennaf a mis Hydref 2020 [ymgyngorodd ar gynigion i leihau plastig untro](#). Roedd yr ymgynghoriad yn cynnwys rhestr arfaethedig o naw eitem i'w gwahardd gan gynnwys [cynhyrchion oxo-ddiraddadwy](#) (cynhyrchion plastig sy'n torri i lawr trwy ocsidiad yn ficro-darnau). Mae enghreifftiau yn cynnwys bagiau siopa, ffilmiau tomwellt amaethyddol ac, yn fwyaf diweddar, rhai poteli plastig. Nid yw'r ymgynghoriad yn sôn yn benodol am fapiau baw cŵn, ond oherwydd yr amrywiaeth eang sydd ar gael i'w prynu mae'n debygol y byddai rhai yn dod o dan y categori hwn. Fodd bynnag, mae [Deddf Marchnad Fewnol y DU 2020](#) wedi creu [ansicrwydd ynghylch pa mor ymarferol fyddai gwahardd plastig untro](#), oherwydd y byddai dal modd gwerthu unrhyw blastig untro a waharddwyd yng Nghymru pe bai'n cael ei fewnforio neu ei ganiatáu yng ngweddill y DU.

Mae Cadwch Cymru'n Daclus wedi cyhoeddi dau adroddiad ar faw cŵn: [Tacllo Baw Cŵn](#) a [Gorfodi Gollwng Sbwriel a Baw Cŵn](#). Mae'r cyntaf yn cyfeirio at waith Canolfan Newid Ymddygiad Cymru, Prifysgol Bangor a rhanddeiliaid, a ddaeth i'r casgliad nad yw llawer o bobl yn sylweddoli y gallant roi bagiau baw cŵn mewn biniau stryd, gan greu rhwystr rhag ymddwyn yn gyfrifol. Nid yw'r naill adroddiad na'r llall yn trafod bagiau gwastraff nad ydynt yn fiogdiraddadwy.

## 2. Camau gweithredu Llywodraeth Cymru

Mae'r llythyr gan y Gweinidog Newid yn yr Hinsawdd, Julie James, yn amlinellu nifer o heriau sy'n gysylltiedig â gwahardd bagiau gwastraff cŵn nad ydynt yn fiogdiraddadwy, gan gynnwys:



- Amrywiad yn y deunyddiau a ddefnyddir ar gyfer gwneud bagiau “ecogyfeillgar”. Dywed fod “bagiau compostadwy” wedi’u gwneud o ddeunyddiau naturiol sy’n aml yn gofyn am amodau penodol o wres a thymheredd er mwyn pydru, nad ydynt i’w cael yn yr amgylchedd naturiol;
- Canlyniad anfwriadol posibl pobl yn peidio â chael gwared ar eu bagiau’n briodol gan eu bod yn credu y byddant yn torri i lawr yn gyflym ac yn ddiogel.

Mae’r Gweinidog yn credu mai’r ffordd fwyaf effeithiol o fynd i’r afael â’r mater yw sicrhau bod perchnogion cŵn yn casglu baw cŵn ac yn cael gwared arno’n briodol mewn biniau. Mae’n amlinellu bod Llywodraeth Cymru yn gweithio gydag Awdurdodau Lleol a Cadwch Gymru’n Daclus, gan gynnwys ariannu’r rhaglen Caru Cymru, sy’n ymgyrch benodol sy’n canolbwyntio ar faw cŵn.

### 3. Camau gweithredu Senedd Cymru

Nid yw mater bagiau gwastraff cŵn biogdiraddadwy wedi cael ei ystyried yn y Senedd.

Gwneir pob ymdrech i sicrhau bod y wybodaeth yn y papur briffio hwn yn gywir adeg ei gyhoeddi. Dylai darllenwyr fod yn ymwybodol nad yw’r papurau briffio hyn yn cael eu diweddarau o reidrydd na’u diwygio fel arall i adlewyrchu newidiadau dilynol.

Julie James AS/MS  
Y Gweinidog Newid Hinsawdd  
Minister for Climate Change



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

Eich cyf/Your ref P-06-1259  
Ein cyf/Our ref JJ/00236/22

Jack Sargeant AS  
Cadeirydd – Y Pwyllgor Deisebau  
Senedd Cymru  
Bae Caerdydd  
Caerdydd  
CF99 1SN

18 Chwefror 2022

Annwyl Jack Sargeant AS

Diolch ichi am eich llythyr dyddiedig 27 Ionawr ynglŷn â'r ddeiseb i wahardd defnyddio bagiau baw cŵn nad ydynt yn fiogdiraddadwy.

Mae gennyf gydymdeimlad â'r pryderon a godwyd yn y ddeiseb hon, ac rwy'n siomedig yn aml o weld bagiau gwastraff cŵn sydd wedi cael eu gwasgaru ar draws cefn gwlad gan berchnogion cŵn anghyfrifol. Er ei bod yn ymddangos bod gwahardd bagiau nad ydynt yn fiogdiraddadwy yn ateb posibl, mae heriau'n gysylltiedig â hynny hefyd. Er enghraifft, mae'r deunyddiau a ddefnyddir i wneud bagiau gwastraff cŵn, hyd yn oed y rhai "ecogyfeillgar", yn amrywio'n fawr. Yn aml, mae angen amodau penodol o ran gwres a thymheredd, nad ydynt yn digwydd yn yr amgylchedd naturiol, cyn y bydd bagiau o ddeunyddiau naturiol y gellir eu compostio yn pydru. Mae'n bosibl hefyd mai un o ganlyniadau anfwriadol bagiau o'r fath yw na fyddai pobl yn cael gwared ar eu bagiau mewn ffordd briodol oherwydd eu bod yn credu y byddant yn dadelfennu'n gyflym ac yn ddiogel. Mae'n debygol, fodd bynnag, y byddant yn parhau yn yr amgylchedd am amser hir.

Rwyf o'r farn mai'r ffordd fwyaf effeithiol o fynd i'r afael â'r mater hwn yw sicrhau bod perchnogion cŵn yn codi gwastraff cŵn ac yn cael gwared arno'n briodol mewn bin. Er mwyn helpu yn hyn o beth, mae Llywodraeth Cymru yn parhau i weithio gyda'r awdurdodau lleol a sefydliadau fel Cadwch Gymru'n Daclus. Yn rhan o'r gwaith hwnnw, darparwyd cyllid yn ddiweddar ar gyfer rhaglen *Caru Cymru*, sydd â'r nod o godi ymwybyddiaeth a newid ymddygiad mewn perthynas â nifer o faterion sy'n gysylltiedig ag ansawdd yr amgylchedd lleol. Mae hynny'n cynnwys ymgyrch benodol sy'n hoelio sylw ar faw cŵn, a gweithio gyda'r awdurdodau lleol i dreialu atebion gwahanol er mwyn helpu i fynd i'r afael â'r broblem. Rwyf wedi atodi dolen i'w tudalen ymgyrchu isod er mwyn ichi fedru cyfeirio ati:

[Cadwch Gymru'n Daclus – Gadewch Olion Pawennau'n Unig](#)

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:  
0300 0604400

Bae Caerdydd • Cardiff Bay  
Caerdydd • Cardiff  
CF99 1SN

[Gohebiaeth.Julie.James@llyw.cymru](mailto:Gohebiaeth.Julie.James@llyw.cymru)  
[Correspondence.Julie.James@gov.Wales](mailto:Correspondence.Julie.James@gov.Wales)

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

**Tudalen y pecyn 76**  
We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Hefyd, gwnaethom ymgynghori y llynedd ar fersiwn ddrafft o'n *Cynllun Atal Sbwriel a Thipio Anghyfreithlon* a ysgrifennwyd ar y cyd ag amrywiaeth o randdeiliaid, gan gynnwys cynghorau, busnesau ac elusennau amgylcheddol. Bydd amryfal gamau gweithredu yn y cynllun a fydd yn canolbwyntio ar bethau fel lleihau faint o wastraff yr ydym yn ei greu, codi ymwybyddiaeth, a gwella gweithgarwch gorfodi.

Gobeithio y bydd y wybodaeth hon o gymorth ichi.

Yn gywir,



**Julie James AS/MS**

Y Gweinidog Newid Hinsawdd  
Minister for Climate Change



Eich cyf/Your ref P-06-1260  
Ein cyf/Our ref EM/00628/22

Jack Sargeant AS  
Cadeirydd - Y Pwyllgor Deisebau

[Government.Committee.Business@gov.wales](mailto:Government.Committee.Business@gov.wales)

23 Chwefror 2022

Annwyl Jack,

Diolch ichi am eich llythyr dyddiedig 2 Chwefror ynglŷn â “Deiseb P-06-1260 – Dylid dileu’r angen am basys covid ar gyfer pob digwyddiad a gweithgaredd” a anfonwyd ataf fel y Gweinidog sydd â’r cyfrifoldeb arweiniol dros y maes polisi hwn.

Mae Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 5) (Cymru) 2020 yn ei gwneud yn ofynnol i gynnal adolygiad o’r mesurau coronafeirws bob tair wythnos. Cafodd yr adolygiad tair wythnos diweddaraf ei gwblhau ar 10 Chwefror.

Mae’r coronafeirws yn parhau i ledaenu yng Nghymru – ac yn y DU. Yn sgil ein hadolygiad diweddaraf, bydd Cymru yn aros ar lefel rhybudd sero, ond gallwn ddechrau llacio rhai o’r cyfyngiadau sydd ar waith yn ofalus ac yn raddol, gan nad yw’r rhain bellach yn gymesur â lefel y risg yr ydym yn ei hwynebu.

Felly, rydym yn bwriadu dechrau codi’r cyfyngiadau, gan ddechrau gyda’r Pàs COVID domestig, yn ystod y tair wythnos nesaf, gan ddibynnu ar y sefyllfa o ran iechyd y cyhoedd.

O 18 Chwefror ymlaen, ni fydd lleoliadau, a oedd gynt yn gorfod cadw at y rheoliadau Pàs COVID domestig – digwyddiadau mawr dan do ac awyr agored, clybiau nos, sinemâu, theatrau a neuaddau cyngerdd – yn gorfod cyfyngu ar fynediad drwy roi mynediad i unigolion sydd wedi’u brechu neu unigolion sydd wedi cael prawf negatif yn unig (neu unigolion sydd wedi’u heithrio ar sail feddygol). Bydd y canllawiau yn nodi y caiff lleoliadau ddewis defnyddio’r Pàs COVID domestig ar sail wirfoddol fel rhan o’u hasesiad risg a mesurau rhesymol.

Bydd y Pàs COVID rhyngwladol yn parhau i fod yn allweddol i drefniadau ar gyfer teithio rhyngwladol diogelach. Bydd angen i deithwyr wirio’r rheolau ar gyfer cael mynediad i’r gwledydd perthnasol, gan gynnwys unrhyw ofynion gwahanol ar gyfer plant.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay  
Caerdydd • Cardiff  
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:  
0300 0604400

[Gohebiaeth.Eluned.Morgan@llyw.cymru](mailto:Gohebiaeth.Eluned.Morgan@llyw.cymru)  
[Correspondence.Eluned.Morgan@gov.wales](mailto:Correspondence.Eluned.Morgan@gov.wales)

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

**Tudalen y pecyn 78**  
We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Mae rhagor o wybodaeth am y mesurau sydd ar waith i gadw Cymru yn ddiogel ar gael ar ein [gwefan](#).

Yn gywir,

A handwritten signature in blue ink, appearing to read 'M. E. Morgan'.

**Eluned Morgan AS/MS**

Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol  
Minister for Health and Social Services

# Eitem 5.1

**P-06-1224 Dylunio cynllun peilot Incwm Sylfaenol Cyffredinol 'Ymadawyr Gofal a Mwy' sy'n cynnwys amrywiaeth o bobl**

Cyflwynwyd y ddeiseb hon gan Jonathan Rhys Williams, ar ôl casglu cyfanswm o 1,051 lofnodion.

## **Geiriad y ddeiseb:**

Rydym yn gofyn i Lywodraeth Cymru ddylunio cynllun Incwm Sylfaenol Cyffredinol (ISC) yn ôl ardal ddaearyddol sy'n cynnwys plant, pobl gyflogedig, pobl ddi-waith a phensiynwyr, yn ogystal â'r rhai sy'n gadael gofal.

Bydd hyn yn caniatáu i Lywodraeth Cymru a'r cyhoedd ddeall sut y byddai'r polisi'n effeithio ar Gymru pe bai'n cael ei gyflwyno yfory.

## **Etholaeth a Rhanbarth y Cynulliad**

- De Caerdydd a Phenarth
- Canol De Cymru

## **Ymateb Ysgrifenedig gan Lywodraeth Cymru i adroddiad y Pwyllgor Deisebau o'r enw Cynllun Peilot UBI i Gymru**

Roedd ymrwymiad yn Rhaglen Lywodraethu 2021-2026 i redeg cynllun peilot ar incwm sylfaenol yng Nghymru.

Gallai darparu Incwm Sylfaenol roi mwy o reolaeth i bobl dros eu bywydau a chael effaith gadarnhaol ar iechyd meddwl a lles, gan gyfrannu at fynd i'r afael â thlodi ac anghydraddoldeb. Gallai hefyd annog mwy o bobl i chwilio am gyfleoedd hyfforddiant a rhoi lle iddynt ymwneud mwy â'r gymuned.

Diben y Cynllun Peilot Incwm Sylfaenol i Bobl sy'n Gadael Gofal yw ceisio rhoi'r dechrau gorau posibl i'r bobl ifanc sy'n rhan o'r cynllun peilot wrth iddynt ddatblygu'n oedolion ac i wneud y profiad o adael gofal fod yn well, yn gadarnhaol, ac yn haws. Bydd y cynllun peilot hefyd yn profi rhai o'r honiadau sy'n cael eu gwneud am Incwm Sylfaenol (gan gynnwys y gallai annog pobl i wneud penderfyniadau am y tymor hwy a fydd, yn y pen draw yn arwain at ganlyniadau gwell iddynt).

Hoffwn ddiolch i aelodau'r Pwyllgor Deisebau am yr adroddiad ar Gynllun Peilot Incwm Sylfaenol yng Nghymru. Yn benodol, rwyf yn falch o weld bod argymhellion y Pwyllgor yn cyd-fynd i raddau helaeth iawn â'n cynlluniau presennol a'n cynlluniau yn y dyfodol. Isod, rwyf wedi rhoi fy ymateb i argymhellion unigol yr adroddiad.

### **Mae ymatebion manwl i argymhellion yr adroddiad wedi'u nodi isod:**

#### **Argymhelliad 1:**

Dylai Llywodraeth Cymru ystyried cynyddu maint y cynllun peilot er mwyn darparu data mwy cadarn. Gellid gwneud hyn drwy ychwanegu grwpiau ychwanegol (fel yr awgrymwyd yn y ddeiseb).

#### **Ymateb: Derbyn mewn egwyddor**

Mae maint y cynllun peilot wedi cynyddu o'r 250 a ddyfynnir yn yr adroddiad i tua 500-600. Er hynny, bydd y garfan yn parhau i ganolbwyntio ar bobl sy'n gadael gofal. Ni fydd cyfranogiad yn orfodol, felly ni fydd y niferoedd gwirioneddol ar gael tan rhywdro ar ôl cychwyn y cynllun peilot.

Yn aml mae treialon gwirioneddol a threialon a gynigir mewn gwledydd datblygedig wedi cael eu cyfyngu i daliadau cymharol fychan i grwpiau cyfyngedig a fydd yn disodli rhai o'r budd-daliadau presennol, ond nid y cyfan ohonynt.

Byddai'n anghywir cymryd yn ganiataol ein bod, wrth dargedu pobl sy'n gadael gofal yng Nghymru mewn cynllun peilot, yn methu â chasglu data digonol i brofi'r cysyniad a'r manteision a nodir o gael Incwm Sylfaenol Cyffredinol.

Gobeithiwn y bydd y gwerthusiad, yn ogystal â gwybodaeth am y garfan sy'n cymryd rhan, yn rhoi gwybodaeth werthfawr am sut y gallai'r cysyniad o incwm sylfaenol fod yn gymwys i grwpiau tebyg eraill ac yn ehangach ar draws poblogaeth Cymru.

**Goblygiadau ariannol** – Dim. Ysgwyddir y gost gan gyllidebau rhaglenni eraill.

**Argymhelliad 2:** Dylai cynllun peilot effeithiol ar gyfer y rhai sy'n gadael gofal gynnwys y rhai sy'n gadael gofal o ystod mor amrywiol â phosibl o gefndiroedd, lleoliadau ac amgylchiadau.

#### **Ymateb: Derbyn**

Bydd y cynllun peilot yn agored i bawb sy'n gadael gofal yng Nghymru sy'n cyrraedd eu pen-blwydd yn 18 oed o fewn cyfnod o 12 mis. Mae'r dyddiadau eisoes i'w pennu a bydd yn dibynnu ar nifer o ffactorau. Gobeithio y gallwn gadarnhau dyddiad dechrau'n fuan.

Er ein bod yn gwybod bod canlyniadau ar gyfer plant sy'n derbyn gofal yn gyffredinol wael, nid yw hyn yn golygu ein bod yn sôn am un grŵp anferth gyda'r un profiad a dyheadau. Bydd y garfan yn cynnwys pobl ifanc o ystod eang o gefndiroedd, lleoliadau ac amgylchiadau.

**Goblygiadau ariannol** – Dim. Ysgwyddir y gost gan gyllidebau rhaglenni eraill.

**Argymhelliad 3:** Rhaid i daliadau fod yn warantedig, yn ddiamod, ac wedi'u talu i'r unigolyn (nid y cartref).

#### **Ymateb: Derbyn**

Bydd taliadau wedi eu gwarantu, yn ddiamod ac yn cael eu talu i'r unigolyn.

**Goblygiadau ariannol** – Dim. Ysgwyddir y gost gan gyllidebau rhaglenni eraill.

**Argymhelliad 4:** Bydd y cynllun peilot yn gyfoethocach a bydd yn ffurfio tystiolaeth fwy cadarn os yw'r holl asiantaethau perthnasol yn ymwneud â'r fenter. Dylai Llywodraeth Cymru wneud pob ymdrech i ddwyn perswâd ar adrannau Llywodraeth y DU i gefnogi'r cynllun peilot ehangaf posibl.

#### **Ymateb: Derbyn**

Rydym yn cydweithio ag adrannau Llywodraeth y Deyrnas Unedig i ddatblygu'r cynllun peilot gorau posibl i bobl sy'n gadael gofal.



Rydym hefyd yn cydweithio ag Awdurdodau Lleol yng Nghymru, sefydliadau eirioli dros blant â phrofiad o fod mewn gofal megis Voices from Care, Barnardo's a Llamau a rhanddeiliaid eraill perthnasol a all ein helpu gyda'r gwaith o ddatblygu a gwerthuso'r cynllun peilot hwn.

